

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 42/2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011/12



**Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:
Adroddiad Blynyddol 2011/12**

Chris Taylor¹, Trisha Maynard², Rhys Davies¹, Sam Waldron¹, Mirain Rhys¹, Sally Power¹, Laurence Moore¹, David Blackaby³ ac Ian Plewis⁴

(¹Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd)

(²Prifysgol Eglwys Crist Caergaint)

(³Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Abertawe)

(⁴Prifysgol Manceinion)



Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydyw o anghenraid yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

Cewch fwy o wybodaeth gan:

Enw: Launa Anderson

Adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5274

E-bost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN: 978-1-4734-0040-5

© Hawlfraint y Goron 2013

Cynnwys

Rhestr o'r Acronymau	i
CRYNODEB GWEITHREDOL	ii
1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiad	1
2 Trefnu a gweinyddu	17
3 Rhaglen Waith ar gyfer Cyfnod I.....	26
4 Gweithgareddau Ymchwil.....	31
5 Dosbarthu a rhwydweithio	46
6 Camau Nesaf: 2012/13.....	49
Cyfeiriadau.....	54
Rhestr o'r Prif Eirfa.....	55
Atodiad A. Dalen Wybodaeth	56

Rhestr y ffigurau

Ffigur 1: Trosolwg o'r Dull Cyflwyno Fesul Tipyn ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen.....	9
Ffigur 2: Dyluniad a Phrif Elfennau'r Gwerthusiad	11
Ffigur 3: Gwefan y Gwerthusiad.....	48

Rhestr y tablau

Tabl 1: Rhestr Ddangosol sy'n Cymharu Dulliau Mesur Deilliannau	14
Tabl 2: Penodi Ymchwilwyr Cysylltiol.....	20
Tabl 3: Amserlen Fras ar gyfer y Gwerthusiad Tair Blynedd.....	29
Tabl 4: Dewis 'Lleoliadau Ysgol' ar gyfer Astudiaethau Achos	44
Tabl 5: Rhaglen Waith Fanwl Bosibl ar gyfer 2012/13	51

Rhestr o'r Acronymau

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
ACM	Astudiaeth Carfan y Mileniwm
AU	Addysg Uwch
AWFPA	Grŵp Cynghorwyr Cymru Gyfan ar gyfer y Cyfnod Allweddol
BERA	Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain
CA1	Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol
CA2	Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol
CAD	Cynorthwywyr Dysgu ac Addysgu
CDA	Cymarebau Disgybl Athro
CS	Cyfnod Sylfaen
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
CyngACC	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
DC	Datblygiad Corfforol
DC	Datblygiad Creadigol
DECIPHer	Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd
DIG	Datblygu'r Iaith Gymraeg
DM	Datblygiad Mathemategol
DPChLIAD	Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
PADP	Proffil Asesu Datblygiad Plentyn
ESRC	Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
Estyn	Estyn yw swyddfa Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi o Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
FPA's	Cynghorwyr y Cyfnod Sylfaen
GBD	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
ILIC	Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
NPD	Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion
SCH	Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant
WISERD	Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad ac amcanion yr adroddiad

1. Polisi amlwg gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar (i blant 3-7 oed) yng Nghymru yw'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n newid cyfeiriad sylweddol o'r dull mwy ffurfiol ar sail galluoedd oedd yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1. Mae'r polisi wedi'i gyflwyno fesul tipyn dros y saith mlynedd ddiwethaf er mwyn iddo gynnwys pob plentyn 3-7 oed yng Nghymru erbyn 2011/12.
2. Ar ran Gweinidogion Cymru, gwahoddodd Llywodraeth Cymru dendrau ym mis Ebrill 2011 i gynnal gwerthusiad annibynnol tair blynedd o hyd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm o ymchwilwyr, o dan arweiniad yr Athro Chris Taylor o Brifysgol Caerdydd a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal y gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2011.
3. Dyma bedwar prif nod y gwerthusiad tair blynedd (2011-2014), fel yr amlinellodd Llywodraeth Cymru ym manylion y tendr ymchwil gwreiddiol:
 - gwerthuso pa mor dda mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith ac amlygu pa welliannau allai gael eu gwneud (gwerthuso'r broses)
 - gwerthuso pa effaith mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael hyd yma (gwerthuso'r deilliannau)
 - asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (gwerthusiad economaidd)
 - sefydlu fframwaith gwerthuso er mwyn olrhain allbynnau a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (y fframwaith gwerthuso).
4. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r gwaith gwerthuso a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae hefyd yn crynhoi'r ymchwil a'r canfyddiadau o Gyfnod I y gwerthusiad yn ogystal â rhoi amlinelliad o ymagwedd a dull y gwerthusiad.

Dyluniad a dull

5. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dull cyflwyno fesul tipyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r modd dilynol y cyflwynir y Cyfnod Sylfaen ar draws nifer o wahanol ysgolion a lleoliadau ar adegau gwahanol. Yn benodol, mae rhan helaeth o'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar gymharu carfanau dilynol o blant sydd wedi bod drwy leoliad ysgol gwahanol ar wahanol adegau o'r broses gyflwyno (y Cyfnod Peilot, y Cyfnod Dechrau Cynnar a'r Cyfnod Cyflwyno Terfynol). Mae hyn yn ein galluogi i gymharu clystyrau o blant na dderbyniodd y Cyfnod Sylfaen gyda clystyrau o blant â dderbyniodd y Cyfnod Sylfaen o fewn yr un garfan. Mae hefyd yn ein galluogi i ystyried amseriad y Cyfnod Sylfaen ar ei effeithiolrwydd yn ogystal ag asesu effaith hyd y Cyfnod Sylfaen ar effeithiolrwydd.
6. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata a thystiolaeth feintiol ac ansoddol sy'n seiliedig ar gasglu data cynradd yn ogystal â data gweinyddol cyfredol. Cesglir data ar lefel genedlaethol ac ar lefel 40 o ysgolion unigol sy'n rhan o'r astudiaeth achos.
7. Mae prif elfennau'r gwerthusiad yn cynnwys: dadansoddiad o ddogfennaeth y Cyfnod Sylfaen sy'n amlinellu deunyddiau datblygu a chyflwyno polisïau yn ogystal â chanllawiau ar gyfer ymarferwyr; cyfweliadau gyda swyddogion polisïau Llywodraeth Cymru a rhan-ddeiliaid cenedlaethol pwysig eraill; arolwg cenedlaethol o benaethiaid, rheolwyr canolfannau ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen; cyfweliadau gyda staff yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a'i gyflwyno; dadansoddiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion a'r Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion; ac ymweliadau astudiaethau achos - sy'n cynnwys cyfweliadau gyda phenaethiaid, athrawon a chynorthwywyr dysgu ac addysgu, arsylwi mewn dosbarthiadau (dosbarth derbyn i Flwyddyn 2), holiadur i rieni, ac arolwg o blant Blwyddyn 2.

Trefnu a gweinyddu

8. Mae dau grŵp cynghori'n cefnogi'r gwerthusiad. Llywodraeth Cymru ddaeth â'r cyntaf ynghyd, sef y grŵp Cynghori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a Sgiliau, gan gynnwys cydweithwyr sy'n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen, a

chydweithwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mae cynrychiolwyr o Estyn ac awdurdodau lleol yn aelodau ohono hefyd.

9. Mae'r ail grŵp cynghori, sef Grŵp Cynghori'r Tîm Gwerthuso, yn annibynnol o Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys nifer o benaethiaid, ymarferwyr, cynrychiolwyr o'r sector na chynhelir, rhieni/gofalwyr ac academyddion blaenllaw o'r sector addysg uwch.

Crynodeb o gynnydd

10. Daeth nifer o ddeilliannau pwysig i'r amlwg yn ystod Cyfnod I y gwerthusiad, gan gynnwys:

- Model Rhesymeg Polisi a Damcaniaeth y Rhaglen - Lluniwyd yr adroddiad hwn i gynorthwyo dyluniad a chynnydd pellach y gwerthusiad drwy amlygu'r hyn a allai gael ei alw'n 'fynegiant swyddogol' y Cyfnod Sylfaen fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ac yn disgrifio'r *cyd-destun* ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, ei *nodau*, ei *resymeg* addysgol (gan gynnwys yr *ymagwedd* ddamcaniaethol ategol), ei fewnbynnau (gan gynnwys ei *gwricwlwm statudol*), ei *brosesau a'i weithgareddau*, a'r *deilliannau* mae'n bwriadu eu cyflawni.
- Mae'r cyfweiliadau gyda rhan-ddeiliaid (swyddogion Llywodraeth Cymru, Cynghorwyr Cyfnod Sylfaen Awdurdodau Lleol, Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant) – yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi canolbwyntio'n bennaf ar sut y rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith yn y lle cyntaf a rôl awdurdodau lleol o ran ei ddatblygu a'i gyflwyno. Mae'n cynnwys cyfweiliadau gyda 19 o Gynghorwyr Cyfnod Sylfaen ac 17 o Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant. Mae'r cyfweiliadau hyn wedi dangos y cefnogwyd y Cyfnod Sylfaen a'r broses gyflwyno wreiddiol yn gyffredinol. Mae hefyd yn amlinellu rôl yr awdurdodau lleol wrth ei roi ar waith. Fodd bynnag, dangosodd y rhain hefyd amrywiaeth mewn dehongliad ac agweddau tuag at y Cyfnod Sylfaen ymysg ysgolion a phenaethiaid oedd, yn ôl y rhan-ddeiliaid hyn, yn gysylltiedig â'r amrywiaeth yn y modd y llwyddodd gwahanol awdurdodau lleol i'w roi

ar waith. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch polisiâu addysgol Llywodraeth Cymru oedd efallai'n gwrthddweud neu'n cymedroli ac yn effeithio ar fanteision posibl y Cyfnod Sylfaen yn ôl pob golwg.

- Dadansoddiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion - mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chymharu plant a gymerodd ran yn y Cyfnod Sylfaen yn y cyfnod cynnar (naill ai ysgolion y Cyfnod Peilot neu'r Cyfnod Dechrau Cynnar) â phlant eraill oedd yn parhau i astudio Cyfnod Allweddol (CA1) y Cwricwlwm Cenedlaethol ar y pryd. Mae ein dadansoddiad yn edrych ar y cysylltiad rhwng y Cyfnod Sylfaen a phresenoldeb yn yr ysgol, asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu CA1, ac asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2). Mae'n dangos pa mor amrywiol yw nodweddion y disgyblion yn yr ysgolion Cyfnod Sylfaen cynnar, sy'n helpu i egluro rhywfaint o'r lefelau uchel o bresenoldeb a chyflawniad isel disgyblion ym mlynnyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen yn ôl pob golwg. Ar ôl ystyried y materion hyn, darlun cymysg sydd gennym o'r Cyfnod Sylfaen. Er bod y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â lefelau uwch o absenoldeb heb ganiatâd ym Mlynnyddoedd 1 a 2 ar un olwg, ceir hefyd yr awgrym bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud gwell cynnydd rhwng y Cyfnod Allweddol ac asesiadau CA2 o gymharu â disgyblion tebyg rhwng CA1 a CA2.

11. Roedd blwyddyn gyntaf y gwerthusiad hefyd yn cynnwys datblygu, samplu a pheilotu dulliau ymchwil ar gyfer ymweliadau astudiaethau achos Cyfnod II y gwerthusiad.
12. Drwy gydol y flwyddyn gyntaf, rydym hefyd wedi bod yn hyrwyddo'r astudiaeth ar ei gwefan benodol www.wiserd.ac.uk/foundationphase, yn ogystal â mynd i Gynadleddau Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru i benaethiaid ac ymarferwyr, a rhoi adroddiadau rheolaidd yng nghyfarfodydd Grŵp Cynghorwyr Cymru Gyfan ar gyfer y Cyfnod Allweddol ac mewn nifer o gynadleddau academiaidd.

1 Cyflwyniad i'r Gwerthusiad

1.1. Yn ôl pob golwg, mae'r Cyfnod Sylfaen yn wahanol iawn i'r ymagwedd fwy ffurfiol sy'n seiliedig ar alluedd mewn addysg sydd wedi'i chysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol o dro i dro. Gan ddefnyddio tystiolaeth o raglenni blynyddoedd cynnar da yn Sgandinafia, Reggio Emilia a Seland Newydd (Te Whāriki), sy'n awgrymu bod mabwysiadu cwricwlwm a dull addysgu rhy ffurfiol cyn bod plant yn chwech neu saith oed yn gallu arwain at safonau cyrhaeddiad is maes o law, mae'n hyrwyddo ymagwedd arbrofol at ddysgu sy'n seiliedig ar chwarae ar gyfer plant 3 i 7 oed. Mae'n pwysleisio mai'r plentyn ddylai fod yn ganolog, yn ogystal ag arwyddocâd lles plentyn, ac mae'n hyrwyddo cydbwysedd o weithgareddau a gychwynnir gan blant a'u cyfarwyddo (neu eu cychwyn) gan yr ymarferwyr mewn amgylcheddau ysgogol o dan do ac yn yr awyr agored.

1.2. Ar ran Gweinidogion Cymru, gwahoddodd Llywodraeth Cymru dendrau ym mis Ebrill 2011 i gynnal gwerthusiad annibynnol tair blynedd o hyd o'r Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm o ymchwilwyr, o dan arweiniad yr Athro Chris Taylor o Brifysgol Caerdydd a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), i gynnal y gynnal y gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2011. Mae'r gwerthusiad yn costio £986,500.

1.3. Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd penodol ac roeddent yn dod o nifer o wahanol brifysgolion yng Nghymru a Lloegr:

- Yr Athro Chris Taylor (Cyfarwyddwr) (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Yr Athro Trisha Maynard (Cyd-gyfarwyddwr) (Prifysgol Eglwys Crist Caergaint)
- Yr Athro Laurence Moore (Prifysgol Caerdydd a DECIPHer)
- Yr Athro Sally Power (Prifysgol Caerdydd a WISERD)
- Yr Athro David Blackaby (Prifysgol Abertawe a WISERD)
- Yr Athro Ian Plewis (Prifysgol Manceinion)

- Mr Rhys Davies (Prifysgol Caerdydd a WISERD)

- 1.4. Dechreuodd y gwerthusiad ym mis Awst 2011 a disgwyllir iddo fod wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2014.
- 1.5. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dull cyflwyno fesul tipyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r modd dilynol y cyflwynir y Cyfnod Sylfaen ar draws nifer o wahanol ysgolion a lleoliadau ar adegau gwahanol. Yn benodol, mae rhan helaeth o'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar gymharu carfanau dilynol o blant sydd wedi bod drwy leoliad ysgol gwahanol ar wahanol adegau o'r broses gyflwyno: Lleoliadau'r Cyfnod Peilot (dechreuodd 22 o ysgolion a 22 o leoliadau a ariennir na chynhelir gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn 2004/05, a dewiswyd un o bob math ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru), y Cyfnod Dechrau Cynnar (dechreuodd 22 yn rhagor o ysgolion a 22 yn rhagor o leoliadau a ariennir na chynhelir gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn 2006/07, a dewiswyd un o bob math ym mhob awdurdod lleol lle'r oedd Dechrau'n Deg ar waith); a'r Cyfnod Cyflwyno Terfynol ym mhob lleoliad (dechreuodd pob ysgol arall a lleoliad a ariennir na chynhelir y Cyfnod Sylfaen yn 2009/10). Mae'r gwerthusiad hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wneud yn siŵr ei fod yn cofnodi cynifer o agweddau â phosibl o'r modd y cafodd rhaglen y Cyfnod Sylfaen ei rhoi ar waith, ei chyflwyno a'i heffaith.
- 1.6. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn amlinellu dyluniad a dull y gwerthusiad cyn sôn am waith y gwerthusiad yn ystod ei flwyddyn gyntaf, sef y cyfnod rhwng mis Awst 2011 a mis Gorffennaf 2012. Mae hyn hefyd yn cyd-daro â Chyfnod I dyluniad y gwerthusiad. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn y cyfnod ac yn amlygu'r prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae adroddiadau eraill yn cynnwys mwy o fanylion am wahanol weithgareddau a chanfyddiadau.

Nodau ac amcanion y gwerthusiad

1.7. Yn unol â'r hyn a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym manylion y tendr ymchwil gwreiddiol, dyma bedwar nod y gwerthusiad tair blynedd (2011-2014):

- gwerthuso pa mor dda mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno ac amlygu ffyrdd posibl o wella (gwerthusiad o'r broses)
- gwerthuso effaith y Cyfnod Sylfaen hyd yma (gwerthusiad o'r deilliannau)
- asesu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (gwerthusiad economaidd)
- sefydlu fframwaith gwerthuso er mwyn olrhain allbynnau a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (fframwaith gwerthuso).

1.8. Mae'r *Gwerthusiad o'r Broses* yn ymwneud yn bennaf â gwerthuso sut y rhoddir y Cyfnod Sylfaen ar waith. Gan ddefnyddio dull cyflwyno fesul tipyn, gobeithiwn werthuso nifer o brosesau pwysig yn ogystal ag 'effaith' y broses o roi'r cynllun ar waith. Mae hyn yn bwysig am dri rheswm. Yn gyntaf, mae gwerthusiadau blaenorol o'r Cyfnod Sylfaen wedi tynnu sylw at yr amrywiaeth yn y modd y rhoddir y cynllun ar waith mewn gwahanol leoliadau, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ganfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Deilliannau. Yn ail, bydd amlygu prosesau neu 'effaith' y modd y rhoddir y cynllun ar waith yn ein helpu i ddeall sawl un o'r deilliannau a gyflwynir isod yn well. Yn drydydd, ac yn olaf, y mathau penodol hyn o ganfyddiadau fydd yn ein helpu wrth gynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru. Bydd y rhain hefyd yn ein helpu i dynnu sylw at feysydd a ddylai fod yn flaenoriaeth wrth fonitro neu werthuso yn y dyfodol (ac ein helpu ni wrth lunio Fframwaith Gwerthuso yn y dyfodol).

1.9. Mae'r *Gwerthusiad o'r Deilliannau* yn ymwneud yn bennaf â deilliannau neu effaith y Cyfnod Sylfaen ar alluoedd plant yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn 1.8, bydd hefyd nifer o ddeilliannau mewn

cysylltiad â sut y rhoddir y Cyfnod Sylfaen ar waith a allai gael eu hystyried fel deilliannau sydd o fantais i'r system addysg neu'r profiad addysgol sy'n mynd y tu hwnt i gyflawniad y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys trefn y staff, yr effaith ar isadeiledd yr ysgol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ymysg staff, ac ati. Yn yr un modd, byddwn yn ceisio defnyddio amrywiaeth eang o dulliau mesur deilliannau i adlewyrchu cynifer â phosibl o'r Meysydd Dysgu mae'r Cyfnod Sylfaen yn ceisio eu cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn amlinellu'r fframwaith cyffredinol a ddefnyddiwn ar gyfer dadansoddi ystadegau yn y dadansoddiad o'r dulliau hyn sy'n mesur deilliannau. Amlygwn hefyd y prif gymariaethau a ragwelwn fel y rhai fydd yn tynnu sylw at unrhyw 'effaith' y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei gael ar awydd y plant i ddysgu, eu lles a'u cyrhaeddiad. Ym mhob achos, mae gennym ddiddordeb, nid yn unig yn amrywiaeth y dulliau mesur deilliannau, ond hefyd lefelau'r amrywiaeth (neu'r anghydraddoldeb) mewn deilliannau.

1.10. Mae'r llenyddiaeth yn cyfeirio'n glir at fanteision addysg blynyddoedd cynnar o safon ar gyrhaeddiad addysgol a datblygu sgiliau maes o law. Er enghraifft, mae Heckman (2008) wedi dangos bod y manteision mwyaf mewn addysg ar eu huchaf ar lefel ysgol gynradd, ac yn enwedig ymhlith plant sydd o dan anfantais nad ydynt yn cael llawer o sylw gan eu rhieni yn gynnar yn eu bywydau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ceisio asesu gwerth am arian ymagwedd y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig o ran y 'tair E' – Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd.

1.11. Mae'r *Gwerthusiad Economaidd* – ac asesu 'gwerth am arian' addysg yn gyffredinol – yn arbennig o anodd gan nad oes ffordd rwydd o ddiffinio 'gwerth' yn y maes hwn. Fodd bynnag, mewn byd lle mae'r un offer ar gael i bawb, cydnabyddir fwyfwy mai sgiliau a dyfeisgarwch y rhai sy'n defnyddio'r offer hwn sy'n pennu llwyddiant economaidd. Mae'r galw am sgiliau ychwanegol a hyfforddiant gwell yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn gwella perfformiad busnesau Cymru ac economi Cymru yn y tymor hir.

1.12. Yn sgîl hynny, y *Gwerthusiad Economaidd* yw'r anoddaf i'w gynnal yn ôl pob tebyg gan nad oes modd cymharu ag unrhyw raglenni blynyddoedd cynnar eraill yng Nghymru i allu cynnal dadansoddiad llawn o'r manteision o ran costau. Gobeithiwn ddefnyddio data hanesyddol (ar lefel genedlaethol a/neu astudiaeth achos leol) a'n bwriad yw casglu data ariannol gan benaethiaid a rheolwyr canolfannau. Defnyddir y rhain i lunio dadansoddiad o gostau a chanlyniadau, fydd yn gosod costau ymddangosiadol y Cyfnod Sylfaen ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddeilliannau. Er nad yw dadansoddiad o'r fath yn gwerthuso effeithlonrwydd technegol neu ddyrannol, dyma'r math mwyaf cyffredin o astudiaeth economaidd mewn sefyllfaoedd o'r fath. Defnyddir dulliau economaidd safonol i bennu'r costau. Bydd y rhain yn seiliedig ar gostau staff a gwariant cyfalaf, ymysg pethau eraill, sydd wedi'u gwario yn ôl pob tebyg o ganlyniad i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Yn wahanol i'r rhagdybiaethau cyffredin ynglŷn â chostau ychwanegol rhaglen neu ymyrraeth newydd, byddwn yn mynd ati i weld a arbedwyd unrhyw gostau (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) mewn cysylltiad â'r Cyfnod Sylfaen mewn ffyrdd/meysydd eraill er mwyn pennu faint mae'r rhaglen yn ei chostio mewn gwirionedd.

1.13. Paratoi Fframwaith Gwerthuso fydd cynnyrch allweddol terfynol y gwerthusiad er mwyn cynorthwyo gwerthusiadau o'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnig cyfle i fyfyrion feirniadol ar y gwerthusiad hwn a'n profiadau ohono. Bydd cynaliadwyedd a chost-effeithiolrwydd yn cael eu hystyried hefyd wrth baratoi'r fframwaith gwerthuso. Yn ôl pob tebyg, dyma fydd trefn y fframwaith gwerthuso:

- Damcaniaeth y rhaglen – bydd yr ymarfer hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr ac yn fodd o amlinellu dogfennaeth y Cyfnod Sylfaen a'i nodau penodol mewn cysylltiad â'r gwerthusiad presennol. Yn benodol, bydd yn cynnig rhesymeg am beth ellir ei werthuso a pha mor aml y bydd angen ei werthuso/monitro.
- Fframwaith monitro – caiff cynigion eu datblygu ar gyfer casglu a dadansoddi data cyffredinol am ddamcaniaeth rhaglen y Cyfnod

Sylfaen. Defnyddir enghreifftiau o'r gwerthusiad presennol i ddangos hyn.

- Fframwaith gwerthuso manwl - bydd angen astudiaethau gwerthuso manwl ac ychwanegol yn ôl pob tebyg i ategu'r gwaith monitro arferol sy'n ystyried sut y rhoddir y Cyfnod Sylfaen ar waith a deilliannau'r rhaglen. Unwaith eto, caiff yr elfen benodol hon ei hamlinellu yn namcaniaeth y rhaglen a nodwyd uchod, a bydd yn cynnwys dulliau posibl ochr yn ochr ag enghreifftiau ymarferol ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol.

1.14. Disgwylir i'r gwerthusiad ddarparu amrywiaeth o gynnyrch. Cyhoeddir y rhain ar adegau penodol yn rheolaidd er mwyn rhannu'r ymchwil a'n canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion, ymarferwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Caiff y rhain eu paratoi a'u hysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaedd a disgwylir iddynt gynnwys:

- gwefan werthuso er mwyn rhannu canfyddiadau a rhoi gwybodaeth i unigolion neu ran-ddeiliaid sydd â diddordeb
- adroddiadau blynyddol: gan gynnwys crynodebau ac adroddiadau ymchwil manylach
- adroddiadau am elfennau penodol o'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da
- teipoleg o ddulliau gweithredu ar sail astudiaethau achos
- 'damcaniaeth rhaglen' a ddatblygir i fod yn sail ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith at ddiben ei werthusiad, a
- pharatoi Fframwaith Gwerthuso er mwyn monitro a gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn y dyfodol.

1.15. Disgwylir i'r gwerthusiad gael ei gyfyngu mewn sawl ffordd oherwydd pa mor gymhleth yw'r Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, nid yw'r gwerthusiad wedi'i ddylunio i edrych yn benodol ar effaith y Cyfnod Sylfaen mewn gwahanol fathau o ysgolion. Yn benodol, nid ydym wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynnwys ysgolion arbennig yn lleoliadau ein hastudiaethau achos. Yn lle hynny, ein bwriad yw olrhain plant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd.

1.16. Er bod modd cymharu gwahanol lleoliadau mewn gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru gan ddefnyddio data cenedlaethol cyfredol a data ein cyfweiliadau (sydd o bosibl yn rhoi cipolwg ar y gwahanol systemau ac ymagweddau cefnogi ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith mewn gwahanol awdurdodau), nid ydym yn bwriadu gwneud cymariaethau o'r fath yn lleoliadau ein hastudiaethau achos gan olygu bod hyn yn gyfyngiad arall yn nyluniad y gwerthusiad hwn. Yn lle hynny, y pedwar rhanbarth consortia addysgol gwahanol yng Nghymru sy'n dewis y rhain i adlewyrchu eu gwahanol ardaloedd. Er y gall data'r astudiaeth ddangos pa mor bwysig (neu amherthnasol) yw rôl yr awdurdodau lleol o ran rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, nid ydym yn bwriadu astudio hyn yn rheolaidd.

Dyluniad a dull

1.17. Wrth baratoi'r dull a dyluniad yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn, ystyriwyd nifer o nodweddion dylanwadol eraill mewn cysylltiad â rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith, gan gynnwys:

- Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn olynol dros amser. Felly, rydym yn gwahaniaethu rhwng ysgolion/lleoliadau mewn tri chfnod cyflwyno (Ffigur 1).
- Ystyrir bod y lleoliadau cychwynnol (Peilot a Dechrau Cynnar) yn dewis eu hunain at ddiben y gwerthusiad hwn. Felly, byddwn yn edrych am unrhyw effeithiau 'Peilot' yn y lleoliadau penodol hyn.
- Gan fod yr ymchwil hon yn gwerthuso'r broses a'r deilliannau, mae diddordeb gennym yn effaith y Cyfnod Sylfaen ar (i) sefydliadau addysgol sydd wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith (y lleoliadau) ac ar (ii) ddisgyblion sydd wedi'u haddysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen (y plant).
- Bydd effaith y Cyfnod Sylfaen ar blant yn cael ei hystyried a'i dadansoddi i raddau helaeth gan yr ysgol y maent/yr oeddent yn eu mynychu (y clystyrau), ond bydd yn cynnwys data ar lefel


disgyblion unigol. Fodd bynnag, gyda data am ddisgyblion unigol, mae gennym ddiddordeb hefyd mewn amrywiaethau yn neilliannau a phrofiadau'r plant ar sail ffyrdd eraill o ddod â data ynghyd (e.e. rhyw, cefndir cymdeithasol-economaidd, ethnigrwydd, ardal, oed).

- Gan na chyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen ar hap, ni chafodd carfanau penodol o blant eu dewis ar hap ychwaith (gan ddibynnu ar ba ysgol/lleoliad a fynychir). Felly, byddwn yn cadw golwg ar unrhyw 'effeithiau' cyffredinol ymysg unrhyw garfanau penodol o blant.
- Ystyrir bod sawl lefel yn gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen (e.e. plant, teuluoedd, ystafelloedd dosbarth, awdurdodau lleol) a bydd angen modelu¹ ar sawl lefel yn sgîl hynny yn rhan o'r gwerthusiad er mwyn ystyried y cysylltiadau rhwng y ffactorau hyn sy'n gweithredu ar wahanol lefelau.
- Cymhlethir y gwerthusiad ymhellach gan y posibilrwydd y gallai plant fod yn mynychu mwy nag un lleoliad yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod blwyddyn gyntaf y Cyfnod Sylfaen (oherwydd hwyrach fod plant 3-4 oed wedi mynychu mwy nag un lleoliad cyn-ysgol a/neu fathau eraill o ofal plant). Er mai canolbwyntio ar ysgolion a gynhelir yw ein bwriad ar gyfer gwerthusiad y broses, bydd y gwerthusiad o'r deilliannau yn ystyried effaith gwahanol ganolfannau cyn-ysgol (cynhelir neu na chynhelir) ar ddeilliannau plant.
- Lleihau anghydraddoldeb mewn deilliannau cymdeithasol ac addysgol yw un o nodweddion pwysig y Cyfnod Sylfaen. Felly, bydd amrywiaethau mewn dulliau gweithredu a deilliannau yn cael yr un sylw â 'chymedr' y deilliannau yn y gwerthusiad.

¹ Mae diffiniad o'r dull hwn yn y rhestr termau.

- Bwriad y Cyfnod Sylfaen yw arwain at welliannau mewn amrywiaeth eang o Feysydd Dysgu² a datblygiad plant. Felly, bydd y gwerthusiad hwn yn edrych, lle bo modd, ar effaith y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o ffyrdd ar sail pob Maes Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, ac nid sgiliau rhifedd a llythrennedd yn unig.
- Canolbwyntiodd y gwerthusiad cynnar o'r Cyfnod Peilot (Siraj-Blatchford *et al.* 2005, 2007) ar ysgolion/lleoliadau yn bennaf. Credwn fod yn rhaid i werthusiad llawn a thrylwyr o'r Cyfnod Sylfaen ystyried rôl a barn rhanddeiliaid pwysig eraill hefyd o ran sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith a'i gyflwyno, yn ogystal â'i effaith. Mae'r rhain yn cynnwys llunwyr polisïau cenedlaethol, staff awdurdodau lleol, rhieni/gofalwyr a'r plant.

Ffigur 1: Trosolwg o'r Dull Cyflwyno Fesul Tipyn ar gyfer Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen



1.18. Mae trefn gyffredinol y gwerthusiad hwn yn dilyn dull cyflwyno fesul tipyn (Brown a Lilford 2006; Hussey and Hughes 2007). Mae hyn yn cyd-fynd â'r modd y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn ddilynol ar draws nifer o ysgolion/lleoliadau ar dri chyfnod cyflwyno gwahanol, sef

² Dyma Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol (PSDWCD); Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC); Datblygiad Mathemategol (MD); Datblygu'r Iaith Gymraeg (WLD) (mewn ysgolion a chanolfannau cyfrwng Saesneg); Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (KUW); Datblygiad Corfforol (PD); a Datblygiad Creadigol (CD).

Lleoliadau Peilot, Dechrau Cynnar a Chyflwyno Terfynol (gweler Ffigur 1). Mae hyn yn ein galluogi i gymharu clystyrau o blant a dderbyniodd y Cyfnod Sylfaen yn gynnar â chlystyrau penodol o blant o'r un garfan na ddilynodd y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cyfrannu at y gwerthusiad o'r deilliannau.


1.19. Mae'r dull cyflwyno fesul tipyn yn ein galluogi i fodelu effaith amser y Cyfnod Sylfaen ar ei effeithiolrwydd a modelu effaith hyd y cyfnod cyflwyno ar effeithiolrwydd. Bydd yr elfennau hyn o'r dyluniad yn cyfrannu at y gwerthusiad o'r broses a'r gwerthusiad o'r deilliannau. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oedd yn gwbl glir ym mha drefn y derbyniodd lleoliadau a phlant y Cyfnod Sylfaen ar wahanol adegau yn ystod y broses gyflwyno, a hwyrach na chafodd hyn ei wneud yn gyfan gwbl ar hap. Felly, ac yn hanfodol bwysig i'r gwerthusiad o'r deilliannau, bydd y dull hwn yn ein galluogi i ystyried a fu unrhyw 'effaith' o ganlyniad i'r Peilot (neu 'effaith' Dechrau Cynnar'). Bydd hyn yn helpu i asesu pa mor gadarn yw unrhyw gymhariaeth rhwng lleoliadau a phlant fu'n gysylltiedig â chyfnodau cychwynol y Cyfnod Sylfaen. Cymerir camau ychwanegol hefyd wrth gymharu lleoliadau a phlant er mwyn lleihau neu ystyried effaith clystyrau Peilot a chlystyrau eraill a reolir.

1.20. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata a thystiolaeth feintiol ac ansoddol sy'n seiliedig ar gasglu data cynradd yn ogystal â data (gweinyddol / arall) cyfredol. Cesglir rhywfaint o'r data hwn ar lefel *genedlaethol*, ond bydd data manylach ar lefel ysgolion unigol sydd mewn *astudiaethau achos*. Mae Ffigur 2 yn amlinellu prif drefn y gwerthusiad a'i phrif elfennau ar gyfer casglu data. Mae Pennod 3 yn rhoi mwy o wybodaeth am amseriad a rhaglen waith y gwerthusiad, tra bod Pennod 4 yn rhoi gwybodaeth fanwl am samplu'r lleoliadau yn yr astudiaethau achos.

1.21. Cesglir data mewn tri chyfnod yn ystod y gwerthusiad. Cyfnod I (Ionawr 2011-Medi 2012); Cyfnod IA (Medi 2012-Mehefin 2013); a Chyfnod III

(Medi 2013-Ebrill 2014). Ar hyn o bryd, dylid nodi mai gofynion casglu data dangosol sydd ar waith ar gyfer Cyfnodau II a III, ac y gallent newid yn ystod y gwerthusiad.

Ffigur 2: Dyluniad a Phrif Elfennau'r Gwerthusiad



Cyfnod I

1.22. Mae Cyfnod I y gwerthusiad wedi'i gwblhau i raddau helaeth (gweler Pennod 4 am fwy o fanylion). Fodd bynnag, dyma amlinelliad o'r dyluniad gwreiddiol ar gyfer Cyfnod I y gwerthusiad.

1.23. *Tystiolaeth ddogfennol yn ymwneud â dyluniad y Cyfnod Sylfaen a sut cafodd ei roi ar waith a'i gyflwyno:* Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau, fel dogfennau polisi, canllawiau, deunyddiau hyfforddi a deunyddiau'r cwricwlwm. Paratowyd fframwaith damcaniaethol i ddadansoddi'r ddogfennaeth oedd ar gael. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn yn bennaf i ddatblygu'r Model Rhesymeg Polisi cychwynnol a Damcaniaeth y Rhaglen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (cewch fwy o wybodaeth ym Mhennod 4).

1.24. *Arolwg cenedlaethol o benaethiaid, rheolwyr canolfannau ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen i gynrychioli pob un o leoliadau'r Cyfnod Sylfaen:* casglodd hwn wybodaeth ac ymatebion ynglŷn â chymwysterau staff, cymarebau staff-disgybl, defnyddio cynorthwywyr dosbarth, defnyddio amgylcheddau awyr agored, meini tramgwydd

cyflwyno, gwariant, rhwystrau cyflwyno ac agweddau tuag at y Cyfnod Sylfaen. Arolwg ar bapur oedd hwn a anfonwyd at bob pennaeth ac ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru ym mis Mehefin 2012 (cewch fwy o wybodaeth ym mhennod 4).

1.25. *Cyfweliadau gyda staff allweddol o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol*: roedd hwn yn wahoddiad i drafod y gefnogaeth a roddir i athrawon, darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, strategaethau monitro a gwerthuso, a rhannu data. Cynhaliwyd llawer o'r cyfweliadau hyn yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad (cewch fwy o wybodaeth ym mhennod 4). Hwyrach y caiff y casgliad hwn o gyfweliadau ei ehangu i gynnwys sefydliadau addysgol eraill fel Estyn, darparwyr ymarfer dysgu a CyngACC yn dilyn y canfyddiadau cychwynnol. Caiff hyn ei ystyried yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad.

1.26. Bydd casglu a dadansoddi data sydd eisoes yn bodoli ynglŷn â rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith a'i effaith bosibl yn rhan bwysig arall o'r gwerthusiad. Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion (PLASC) a Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD) yw'r prif ffynonellau data. Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhain ac maent yn edrych yn benodol ar:

- Ddata am bresenoldeb - i edrych ar newidiadau o ran sut mae plant yn cymryd rhan mewn ysgolion cynradd. Er enghraifft, rydym yn chwilio am unrhyw beth sy'n dynodi bod y Cyfnod Sylfaen wedi helpu i wella presenoldeb mewn ysgolion ac o bosibl yn adlewyrchu newidiadau mewn agwedd at addysg ym mlynyddoedd cynnar eu haddysg. Gall newidiadau mewn presenoldeb hefyd adlewyrchu gwelliannau mewn addysg a lles ymysg plant o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen yn anuniongyrchol.
- Data asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 1 – i allu cymharu ysgolion ar sail eu cyfnod cyflwyno penodol.
- Data asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 - i allu cymharu ysgolion ar sail eu cyfnod cyflwyno penodol.

1.27. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r dadansoddiad o'r data hwn. Dechreuodd y dadansoddiad cychwynnol o ddata PLASC/NPD yng Nghyfnod I y gwerthusiad, ond disgwylir iddo barhau drwy gydol Cyfnodau II a III wrth i ddata gael ei gyflwyno gan garfanau dilynol o blant (cewch fwy o wybodaeth ym Mhennod 4).

1.28. Yn ogystal â data a gan PLASC ac NPD, mae'r gwerthusiad hefyd yn defnyddio data o Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS), sef astudiaeth ledled y DU sy'n dilyn carfan o blant a anwyd yn 2000/01. Mae'n cynnwys sampl helaeth o blant o Gymru ac ardaloedd difreintiedig. Yn hollbwysig, mae'r MCS yn cynnwys tua 100 o blant a fynychodd ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen rhwng 2004 a 2006. Mae dadansoddi'r MCS yn cynnig cyfle arall i astudio effaith bosibl y Cyfnod Sylfaen ar ddatblygiad gwybyddol yn ogystal ag agweddau plant at ddysgu a dangosyddion eraill a gesglir yn yr MCS am les cymdeithasol ac emosiynol.

Cyfnodau II a III

1.29. *Cyfweliadau gyda phenaethiaid mewn ysgolion astudiaethau achos:* bydd y rhain yn gwahodd y penaethiaid i roi mwy o fanylion am sut rhoddir y Cyfnod Sylfaen ar waith a'r costau, eu hargraff o'i fanteision (neu fel arall), effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar weddill yr ysgol/lleoliad, cefnogaeth i athrawon a staff. Cynhelir y cyfweliadau hyn yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad gyda phenaethiaid pob ysgol a gynhelir sy'n rhan o'r astudiaeth achos. Fel rhan o'r gwaith o olrhain y plant sydd yn ysgolion yr astudiaeth achos, byddwn yn dewis nifer o leoliadau cyn-ysgol a gynhelir neu na chynhelir ar ôl yr astudiaeth er mwyn cynnal cyfweliadau gyda'u prif ymarferwyr Cyfnod Sylfaen.

Tabl 1: Rhestr Ddangosol sy'n Cymharu Dulliau Mesur Deilliannau

Math o 'effaith'	Dull mesur	Lleoliad ymyrraeth	Lleoliad a reolir	Carfana u geni	Math o gymhariaeth
'Effaith' y Peilot	Asesiadau Athrawon CA1	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau cyflwyno terfynol	2004/05 - 2006/07	Uniongyrchol
'Effaith' y Peilot	Asesiadau Athrawon CA1	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau Dechrau Cynnar	2003/04 - 2006/07	Uniongyrchol
'Effaith' dechrau cynnar	Asesiadau Athrawon CA1	Lleoliadau Dechrau Cynnar	Lleoliadau cyflwyno terfynol	2004/05 - 2006/07	Uniongyrchol
'Effaith' cyn-ysgol	CDAP	E.e. Patrymau cyn-ysgol		2006/07	Cymharu o fewn y grŵp
'Effaith' yr adeg y cafodd ei roi ar waith	Asesiadau Athrawon CA1	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau cyflwyno terfynol	Amh.	An-uniongyrchol – blwyddyn gyflwyno gyfatebol
'Effaith' hyd yr ymyrraeth	Asesiadau Athrawon CA1	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau Dechrau Cynnar	2003/04	Uniongyrchol
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Asesiadau Athrawon CA2	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau cyflwyno terfynol	2000/01 - 2002/03	Uniongyrchol (DS 'effaith' y Peilot)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Asesiadau Athrawon CA1	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau cyflwyno terfynol	2000/01 - 2003/04	Uniongyrchol (DS 'effaith' y Peilot)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Data presenoldeb	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau cyflwyno terfynol	2000/01 - 2007/08	Uniongyrchol
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Asesiadau Athrawon CA1	Cyfnodau rhoi ar waith		Cyn 2000/01 ac wedi hynny	An-uniongyrchol (DS 'effeithiau' Peilot a charfanau)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Asesiadau Athrawon CA2	Cyfnodau rhoi ar waith		Cyn 2000/01 ac wedi hynny	An-uniongyrchol (DS 'effeithiau' Peilot a charfanau)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Mesur cynnydd rhwng CA1 a CA2	Lleoliadau Peilot	Lleoliadau cyflwyno terfynol	2000/01 - 2002/03	Uniongyrchol (DS 'effaith' y Peilot)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Meincnodau CA2	Lleoliadau Cyfnod Sylfaen yng Nghymru	Lleoliadau tebyg yn Lloegr	2000/01 – 2006/07	Uniongyrchol (DS 'effaith' y wlad)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Meincnodau CA2	Lleoliadau Cyfnod Sylfaen yng Nghymru	Lleoliadau tebyg yn Lloegr	2000/01 – 2002/03	Uniongyrchol (DS 'effaith' y wlad)
'Effaith' y Cyfnod Sylfaen	Data am bresenoldeb	Lleoliadau Cyfnod Sylfaen yng Nghymru	Lleoliadau tebyg yn Lloegr	2000/01 - 2007/08	Uniongyrchol (DS 'effaith' y wlad)

- 1.30. *Cyfweliadau gydag athrawon/cynorthwywyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion astudiaethau achos:* fe'u gwahoddir i drafod eu gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen, hyfforddiant a datblygiad o ran cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, agweddau tuag at fanteision (neu anfanteision) y Cyfnod Sylfaen, cynllunio, asesu a monitro cynnydd disgyblion, rôl yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ac addysgu, a'r argraff am effaith y Cyfnod Sylfaen. Cynhelir y cyfweliadau hyn yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad, ac mae'n bosibl y bydd cyfweliadau dilynol yng Nghyfnod III.
- 1.31. *Cyfweliadau i rieni mewn lleoliadau astudiaeth achos:* mae rhieni/gofalwyr yn cael eu holi am eu gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen, yr agweddau tuag ato, a phrofiadau o'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol o dan y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir copi papur o'r holiadur i'r rhieni ond mae'n bosibl ei gwblhau'n electronig. Caiff ei anfon at rieni/gofalwyr pob plentyn sydd yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion astudiaeth achos yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad.
- 1.32. *Arsylwi dosbarthiadau/ysgolion mewn lleoliadau astudiaeth achos:* bydd hyn yn cynnwys amlygu gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen, cymharu dosbarthiadau ar draws grwpiau blynyddoedd gwahanol (e.e. dosbarthiadau meithrin, derbyn, B1, B2), defnyddio amgylchedd dan do/awyr agored, gosodiad yr ystafell ddosbarth, strwythur a threfn yr amgylchedd dysgu, rôl athrawon a chynorthwywyr dysgu ac addysgu. Cynhelir yr arsylwadau hyn (sy'n cynnwys casglu data systematig ac ansystematig) yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad a bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan ynddo. Arsylwadau 'cipolwg' fydd y rhain: ar draws amrywiaeth o grwpiau blwyddyn, dyddiau'r wythnos, amseroedd o'r dydd, ac ati (cewch fwy o wybodaeth ym mhennod 4). Bydd yr arsylwadau yng Nghyfnod II yn canolbwyntio ar (a) arsylwi sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith mewn dosbarthiadau/ysgolion/ lleoliadau, a b) casglu dangosyddion lles cymdeithasol ac emosiynol gan blant. Yng Nghyfnod III, byddwn yn ailymweld â ysgolion yr astudiaethau achos er mwyn cynnal rhagor o arsylwadau o

ddosbarthiadau/ysgolion. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar (a) materion sy'n gysylltiedig â phontio i mewn ac allan o'r Cyfnod Sylfaen, a (b) enghreifftiau o arferion da a gwael.

1.33. Fel rhan o'r gwaith o olrhain y plant yn lleoliadau'r astudiaethau achos (gweler isod), byddwn yn dewis nifer o leoliadau cyn-ysgol a gynhelir neu na chynhelir ar ôl yr astudiaeth er mwyn cynnal arsylwadau ychwanegol. Cynhelir y rhain unwaith yn unig yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad.

1.34. *Arolwg disgyblion*: arolwg byr a weinyddir fydd hwn. Bydd wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer plant 6/7 oed ym Mlwyddyn 2 ym mhob un o leoliadau'r astudiaeth achos. Fe'i cynhelir yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad a bydd yn rhoi cipolwg o'r gwahaniaethau mewn agwedd a phrofiadau parthed eu haddysg gynradd ac addysg yn fwy cyffredinol.

2 Trefnu a gweinyddu

- 2.1 Yr Athro Chris Taylor yw ymchwilydd a chyfarwyddwr arweiniol y gwerthusiad. Mae'n gweithio yn Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'r cyd-gyfarwyddwr, yr Athro Trisha Maynard (Prifysgol Eglwys Crist Caergaint), yn ei gynorthwyo. Mae grŵp o uwch-academyddion mewn nifer o brifysgolion yng Nghymru a Lloegr yn cydweithio â'r cyfarwyddwr a'r cyd-gyfarwyddwr. Mae'r rhain yn rhoi cymorth angenrheidiol yn eu disgyblaethau a'u meysydd penodol yn ôl yr angen. Mae eu rôl yn ymwneud â gwahanol agweddau o'r gwerthusiad, felly maent yn cyfrannu ato lle bo'n briodol ar gais y cyfarwyddwr a'r cyd-gyfarwyddwr.
- 2.2 Dadansoddi data a gynigir i fodloni nodau'r gwerthusiad yw un o elfennau pwysicaf yr arbenigedd ychwanegol hwn. Rhys Davies, sy'n gweithio yn WISERD (Prifysgol Caerdydd), sy'n gwneud hyn yn bennaf. Fe'i cynorthwir gan yr Athro David Blackaby (Prifysgol Abertawe) sy'n arbenigo mewn economeg a'r Athro Ian Plewis (Prifysgol Manceinion) sy'n arbenigo mewn modelu ystadegol ar sawl lefel.
- 2.3 Ceir cymorth gan uwch-academyddion eraill gan gynnwys yr Athro Sally Power (Prifysgol Caerdydd) sy'n arbenigo mewn dadansoddi polisïau addysg, a'r Athro Laurence Moore (Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHER, Prifysgol Caerdydd) sy'n arbenigo mewn dylunio gwerthusiadau.
- 2.4 Mae gweinyddwr rhan-amser, sy'n gyfrifol am drefnu a darparu cofnodion ar gyfer holl gyfarfodydd y prosiect, yn cynorthwyo'r prosiect. Mae hefyd yn gyfrifol am gynnal rhestrï o gysylltiadau gyda rhan-ddeiliaid pwysig, ymarferwyr sydd â diddordeb, ysgolion a Llywodraeth Cymru. Y gweinyddwr sy'n bennaf gyfrifol am fwydo'r holl ddata a pharatoi trawsgrifiadau, ond gall rhywfaint o'r gwaith yma gael ei is-

gontractio i asiantaethau eraill lle bo angen ac yn gwbl unol â gofynion diogelu data. Y gweinyddwr sydd hefyd yn bennaf gyfrifol am gynnal gwefan y gwerthusiad (gweler isod) ac mae hefyd yn cyflawni dyletswyddau gweinyddol eraill i gynorthwyo ymchwilwyr y prosiect.

- 2.5 Penodwyd ymchwilwyr cysylltiol ychwanegol i roi rhagor o arbenigedd ymchwil. Maent yn bennaf gyfrifol am gasglu'r data – cyfweiliadau gyda staff awdurdodau lleol ac ymweliadau astudiaethau achos ag ysgolion a lleoliadau na chynhelir.
- 2.6 Mae gan yr ymchwilwyr cysylltiol rôl flaenllaw o ran dylunio a datblygu dulliau casglu data, ond y tîm ymchwil sy'n gwneud pob penderfyniad a'r dulliau terfynol a Llywodraeth Cymru sydd â'r gair olaf.
- 2.7 Er bod y broses gymeradwy hon yn cymryd mwy o amser, mae'n angenrheidiol gan mai Llywodraeth Cymru yw perchennog a chomisiynydd y gwaith hwn. Felly, mae angen iddi ei chymeradwyo a bod yn ymwybodol o bob elfen o'r gwerthusiad ond mae wedi'i dylunio i darfu cyn lleied â phosibl ar y rhai a allai fod yn cymryd rhan yn yr ymchwil yn y Cyfnod Sylfaen.
- 2.8 Mae tîm craidd y prosiect, sef y cyfarwyddwr, y gweinyddwr a'r ymchwilwyr cysylltiol, yn cydweithio ym Mhrifysgol Caerdydd. Maent yn cwrdd yn rheolaidd bob pythefnos (a thrwy fideo-gynadledda gydag aelodau eraill y tîm nad ydynt yng Nghaerdydd).
- 2.9 Mae'r cyfarwyddwr yn rhoi adroddiad misol i reolwr cytundeb y gwerthusiad, Launa Anderson, yn Llywodraeth Cymru. Mae cyfathrebu rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi bod yn werthfawr dros ben wrth ddatblygu'r gwerthusiad a'r gwaith ymchwil sy'n rhan ohono.
- 2.10 Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu ac yn cydlynu grŵp Cynghori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen. Mae'r grŵp yn cynnwys staff yr Adran Addysg a Sgiliau, gan gynnwys cydweithwyr sy'n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â chydweithwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a

Dadansoddol Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp cynghori hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Estyn ac awdurdodau lleol.

2.11 Dyma amodau gorchwyl grŵp Cynghori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen:

- cwrdd â thîm y gwerthusiad i drafod cynnydd y prosiect a chynnig awgrymiadau a gwybodaeth er mwyn eu cynorthwyo.
- monitro amseriad y prosiect o ran gwneud yn siŵr ei fod yn parhau ar y trywydd cywir o ran cyflawni cerrig milltir, yn ogystal â hysbysu aelodau am unrhyw ddyddiadau pwysig e.e. Pryd bydd data'r asesiad sylfaen ar gael.
- rhoi cyngor a chymorth technegol.
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faes polisiau addysg a sgiliau yng Nghymru.
- rhoi cyngor a chymorth o safbwynt yr ysgolion a'r ymarferwyr.
- rhoi cysylltiad rhwng gwerthuso a llywodraethu'r Cyfnod Sylfaen.
- adolygu drafftiau o adroddiadau a deunyddiau ymchwil fel y bo'n briodol.
- gwneud yn siŵr bod y gwersi a ddysgir yn y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen yn cael eu datblygu yn y meysydd gwaith perthnasol.

2.12 Jo-Anne Daniels (Cadeirydd), Dirprwy Gyfarwyddwr y Cwricwlwm yn yr Adran Addysg a Sgiliau, yw cadeirydd y grŵp. Mae wedi cwrdd â thîm y gwerthusiad ddwywaith yn ystod y flwyddyn gyntaf a chael y cyfle, trwy hynny, i'w diweddarau am gynnydd a thrafod ei ddulliau ymchwil a'r canfyddiadau cychwynnol. Bwriedir cynnal rhagor o gyfarfodydd gyda grŵp Cynghori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru bob chwe mis yn ystod gweddill y gwerthusiad. Mae cofnodion pob cyfarfod ar gael gan Lywodraeth Cymru ac fe'u rhennir ag aelodau'r grŵp.

Penodiadau

2.13 Yn y cynnig gwreiddiol, roedd y gwerthuswyr yn bwriadu penodi dau ymchwilydd cysylltiol hanner ffordd drwy flwyddyn gyntaf y

gwerthusiad. Byddai'r rhain yn ategu sgiliau ac arbenigedd yr uwch-dîm ymchwil a byddai ganddynt gryn gyfrifoldeb dros gasglu data wedi hynny. Byddai gan y ddau ymchwilydd brofiad sylweddol o ymchwil, wedi gweithio mewn ysgolion, ac wedi cwblhau doethuriaeth ymchwil mewn addysg neu bwnc cysylltiedig. Byddai'n rhaid i o leiaf un o'r ddau ymchwilydd cysylltiol fod yn siarad Cymraeg rhugl hefyd.

2.14 Yn dilyn y broses recriwtio, dewiswyd dau ymgeisydd oedd â'r sgiliau hyn, yn ogystal â sgiliau gofynnol eraill. Yn anffodus, nid oedd yr unig ymgeisydd oedd â'r sgiliau angenrheidiol *yn ogystal â'r* sgiliau Cymraeg wedi cwblhau ei PhD bryd hynny. Ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, penderfynwyd oedi tan fis Medi 2012 cyn penodi'r ymgeisydd o dan sylw gan y byddai wedi cyflwyno'i PhD erbyn hynny. Aethpwyd ati wedyn i benodi trydydd ymgeisydd dros dro i gynorthwyo'r gwerthusiad cyn mis Medi 2012. Mae Tabl 2 yn amlinellu'r penodiadau hyn.

Tabl 2: Penodi Ymchwilwyr Cysylltiol

Enw'r ymchwilydd	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
Dr Sam Waldron	Chwefror 2012	Awst 2014
Dr Robin Smith	Ionawr 2012	Awst 2012
Mirain Rhys	Medi 2012	Awst 2014

Grŵp Cynghori Tîm y Gwerthusiad

2.15 Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu dyluniadau'r gwerthusiad, y dulliau ymchwil a chreu cynnyrch y gwerthusiad, sefydlodd tîm y gwerthusiad ei grŵp cynghori ei hun sydd heb gysylltiad â Llywodraeth Cymru. Mae aelodau'r grŵp hwn yn cynnwys penaethiaid, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, rhan-ddeiliaid pwysig o'r sector AU (gan gynnwys ymchwilwyr academiaidd blaenllaw a darparwyd Ymarfer Dysgu Cychwynnol), yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector na chynhelir. Yr Athro Gareth Rees, Cyfarwyddwr WISERD, yw cadeirydd y grŵp hwn.

- 2.16 Cytunwyd ar yr amodau gorchwyl isod yng nghyfarfod cyntaf y grŵp:
- cynghori tîm y gwerthusiad am sut i roi'r gwerthusiad ymchwil ar waith
 - cynorthwyo tîm y gwerthusiad wrth ddylunio dulliau a gweithdrefnau casglu data
 - rhoi adborth am ddadansoddiad a chanfyddiadau'r gwerthusiad
 - helpu i rannu canfyddiadau'r gwerthusiad gyda llunwyr polisïau, ymarferwyr a rhan-ddeiliaid pwysig eraill; a
 - hwyrach y gofynnir i'r grŵp baratoi adroddiadau am gynnydd y gwerthusiad.

2.17 Cynhaliodd Grŵp Cynghori Tîm y Gwerthusiad ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2012, a chynhaliwyd cyfarfod arall ganddynt ym mis Gorffennaf 2012. Mae'r grŵp yn bwriadu cwrdd ddwywaith y flwyddyn drwy gydol y gwerthusiad. Mae cyfarfodydd y grŵp yn rhai cyfrinachol a dim ond aelodau'r grŵp sy'n gallu cael cofnodion y cyfarfodydd³. Mae pwyntiau gweithredu (lle bo angen) yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda Llywodraeth Cymru er gwybodaeth.

2.18 Mae'r grŵp ychwanegol hwn sydd ar wahân wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i dîm y gwerthusiad o ran helpu tîm y gwerthusiad i feithrin cysylltiadau gydag ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad i hynny, mae'r ysgolion a gynrychiolir gan aelodau'r grŵp wedi cael eu defnyddio mewn nifer o ddulliau casglu data penodol ar gyfer y gwerthusiad.

Moeseg

2.19 Mae'r ymchwilydd arweiniol yn aelod o Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA), ac mae'r gwerthusiad yn cadw at Ganllawiau Moesegol BERA ar gyfer Ymchwil Addysgol (2004) yn ogystal â'r Siarter Arferion Da wrth Ddefnyddio Ymchwilwyr o Dan Gytundeb

³ Mae cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd hyn hefyd i arsylwi.

(2001). Rhaid cael cymeradwyaeth foesebol ymlaen llaw ar gyfer pob rhan o'r gwerthusiad o fewn Fframwaith Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd ac mae pob ymchwilydd wedi cael gwiriad cychwynnol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

- 2.20 Rhaid cael sêl bendith foesebol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, sy'n cwrdd bob mis, ar gyfer pob elfen o'r gwerthusiad. Gan fod sawl un o ddulliau casglu data'r gwerthusiad wedi gorfod cael eu paratoi a'u dylunio'n benodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ceisiwyd cael sêl bendith foesebol fesul tipyn, ar ôl dod i gytundeb terfynol (gyda Llywodraeth Cymru) ynglŷn â dyluniad y dulliau.
- 2.21 Cyflwynwyd cais cychwynnol am sêl bendith foesebol fis Chwefror 2012 ar gyfer Cyfnod I yr ymchwil (gweler isod). Roedd hyn yn cynnwys arolwg cenedlaethol y penaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â'r cyfweiliadau gyda swyddogion polisïau ac ymarferwyr awdurdodau lleol sy'n cynorthwyo'r Cyfnod Sylfaen. Cymeradwywyd y cais cyntaf am sêl bendith foesebol fis Mawrth 2012.
- 2.22 Tua diwedd y flwyddyn gyntaf (Mehfin 2012), cyflwynwyd ail gais am sêl bendith foesebol ar gyfer Cyfnod II y gwerthusiad ar gyfer y gyfres gyntaf o ymweliadau astudiaeth achos yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad. Roedd hyn yn cynnwys arsylwi dosbarthiadau a chyfweiliadau gydag ymarferwyr yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer cael caniatâd plant a'u rhieni/gofalwyr mewn lleoliadau astudiaethau achos. Cymeradwywyd rhan hon y gwerthusiad fis Gorffennaf 2012.
- 2.23 Gyda phob ymarfer casglu data, mae dalenni gwybodaeth (Cymraeg a Saesneg) wedi'u paratoi i hysbysu a gwahodd y rhai a allai gymryd rhan. Darperir ffurflenni caniatâd neu weithdrefnau ychwanegol hefyd. Mae'r rhain yn gwneud yn siŵr bod pawb sy'n cymryd rhan yn y gwerthusiad wedi cydsynio'n ddeallus i wneud hynny. Mae pawb sy'n cymryd rhan hefyd yn cael gwybod bod rhwydd hynt ganddynt i roi'r

gorau neu wrthod cymryd rhan a/neu ofyn i'w data gael ei dynnu o'r gwerthusiad.

- 2.24 Bydd angen caniatâd ar wahân gan rieni/gofalwyr y plant ar gyfer arsylwi dosbarthiadau yn yr astudiaethau achos. Bydd pob rhiant/gofalwr yn cael gwybodaeth am y gwerthusiad a sut bydd eu plentyn yn cymryd rhan yn yr ymchwil. Cânt wedyn y cyfle i dynnu eu plentyn o'r gwerthusiad - cydsyniad deallus i dynnu allan. Ystyriodd tîm y gwerthusiad gael gweithdrefn o gydsynio'n ddeallus i gymryd rhan, ond o ystyried (a) bydd y plant yn anhysbys ym mhob arsylwad (ni fydd yr ymchwilwyr yn cofnodi enw'r plentyn) a bydd unrhyw adroddiadau o'r arsylwadau'n rhai cyffredinol (am ddsbarthiadau ac ysgolion) a (b) y gallai cael caniatâd llawn gan bawb amharu gryn dipyn ar y dosbarth, tybiwyd nad oed hyn yn angenrheidiol. Cytunodd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil a rhoddodd sêl bendith i gael cydsyniad i dynnu allan.
- 2.25 Disgwylir y bydd angen cyflwyno cais am ragor o sêl bendith ar gyfer Cyfnod III yr ymchwil, a allai gasglu gwahanol fathau o ddata o leoliadau'r astudiaethau achos (recordio ar fideo, o bosibl) ac y bydd angen trefniadau amgen ar gyfer ceisio cydsyniad deallus.
- 2.26 Bydd angen sêl bendith foesebol ychwanegol ac ar wahân, yn yr un modd â'r hyn yr oedd ei angen yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, ar gyfer nodweddion ychwanegol yng Nghyfnod II y gwerthusiad e.e. arolwg disgyblion.
- 2.27 Mae'r tîm yn cadw at y canllawiau moesebol ar gyfer ymchwil a bennwyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd a BERA. Sicrheir pob ysgol sy'n cymryd rhan a'r rhai sy'n ymateb y caiff y canlyniadau eu cyflwyno'n gyfrinachol. Ni enwir unrhyw staff unigol mewn adroddiadau, a chymerir gofal arbennig i osgoi amlygu unrhyw un wrth ddefnyddio technegau astudiaethau achos.
- 2.28 Caiff yr holl waith ei wneud yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Caiff y dadansoddiadau o ddata ar lefel disgyblion eu cyflwyno ar

gyfer carfanau a grwpiau penodol a bydd data sy'n cynnwys enwau unigol yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol. O ran unrhyw ddata ansoddol, bydd cofnodion papur ac electronig sy'n cysylltu enwau disgyblion a rhieni â rhifau adnabod, yn cael eu cadw ar wahân i'r prif ddata. Caiff cofnodion electronig eu cadw ar rwydweithiau cyfrifyddol a ddiogelir gan gyfrineiriau. Bydd unrhyw gofnodion papur yn cael eu cadw o dan glo mewn cypyrddau ffeilio mewn swyddfeydd diogel.

2.29 Wrth asesu a dadansoddi data o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi data anhysbys am ddisgyblion unigol. Dim ond newidynnau sydd yn y data gan olygu nad oes modd adnabod disgyblion unigol. Yn ogystal, dim ond ar gyfer y gwerthusiad y mae'r rhifau adnabod wedi'u paratoi, felly nid yw'n bosibl cysylltu setiau data a ddefnyddir gan dîm y gwerthusiad â newidynnau eraill ar y Gronfa Ddata Genedlaethol at ddibenion ymchwil.

Gwefan

2.30 Mae tudalennau am Werthusiad y Cyfnod Sylfaen ar wefan WISERD: www.wiserd.ac.uk/foundationphase.

2.31 Mae'r dudalen hafan ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n cynnwys dolenni i rannau eraill o wefan y gwerthusiad. Mae hefyd yn dangos sut i gysylltu â thîm y gwerthusiad, sydd â'i gyfeiriad e-bost ei hun: fpevaluation@caerdydd.ac.uk.

2.32 Mae gwefan y gwerthusiad yn cynnwys gwybodaeth am y tîm ymchwil, dyluniad y gwerthusiad, adroddiadau a chyhoeddiadau (pan fyddant yn dechrau cael eu cyhoeddi), yn ogystal â dolenni ac adnoddau defnyddiol sy'n ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen.

2.33 Mae'r wefan yn cynnwys cylch trafod hefyd lle gall unrhyw un roi sylwadau am y gwerthusiad a/neu'r Cyfnod Sylfaen. Er bod yn rhaid i ddefnyddwyr y cylch trafod gofrestru cyn rhoi sylwadau, nid oes rhaid rhoi eich enw wrth eu cyflwyno. Cyfeirir at y cylch trafod yn yr holl

ddeunyddiau cyhoeddusrwydd am y gwerthusiad, ond disgwyliwn dynnu mwy o sylw ato yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, yn enwedig ymysg ymarferwyr a rhieni/gofalwyr.

Ysgoloriaeth Ymchwil PhD

- 2.34 Yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, llwyddodd y tîm i gael arian gan ESRC ar gyfer ysgoloriaeth ymchwil PhD. Mae'r ysgoloriaeth yn talu am y ffioedd dysgu ac yn rhoi cyflog i'r myfyriwr llwyddiannus am dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2012. Mae'n ysgoloriaeth hynod glodfawr a leolir yng Nghanolfan Hyfforddiant Doethurol ESRC Cymru gyfan (bydd y myfyriwr yn cofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn cael ei oruchwylio yno). Golyga hynny y gall y myfyriwr llwyddiannus fanteisio ar hyfforddiant a chefnogaeth gydnabyddedig yn ogystal â chael y cyfle i fod yn rhan o gynlluniau eraill y mae ESRC yn eu hariannu yn ystod yr ysgoloriaeth.
- 2.35 Er mai'r myfyriwr fydd yn paratoi'r nodau a'r dyluniad terfynol ar gyfer yr ymchwil ddoethurol, mae'r ysgoloriaeth ymchwil wedi'i dylunio i ategu ac ychwanegu gwerth at y gwerthusiad a ariennir. Mae tîm y gwerthusiad a Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos wrth amlinellu'r ysgoloriaeth ymchwil, a bydd hyn yn parhau wrth i'r ysgoloriaeth ymchwil ddatblygu.
- 2.36 Hysbysebwyd ysgoloriaeth ymchwil ESRC fis Ionawr 2012. Ar ôl cynnal cyfweiliadau, penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus, Alyson Lewis, fis Mawrth 2012.

3 Rhaglen Waith ar gyfer Cyfnod I

Crynodeb o gynnydd

- 3.1 Ar ddechrau'r gwerthusiad, paratowyd amserlen fras o'r prif weithgareddau (Tabl 3). Roedd y rhain yn cynnwys casglu data, dadansoddi data a cherrig milltir neu gynnyrch pwysig. Mae'r holl weithgareddau a restrwyd yn fras ar gyfer blwyddyn gyntaf y gwerthusiad wedi'u cyflawni i raddau helaeth. Mae Pennod 4 yn rhoi mwy o wybodaeth am y gweithgareddau ymchwil hyn.
- 3.2 Yn wreiddiol, roedd model rhesymeg polisi a damcaniaeth rhaglen gysylltiedig yn mynd i gael eu paratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen er mwyn cyflawni ei bedwerydd nod, sef paratoi fframwaith gwerthuso ar gyfer monitro a gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol. Fodd bynnag, teimlwyd bod angen eglurder cysyniadol a damcaniaethol wrth amlygu'r nodau a'r rhesymeg yn benodol cyn casglu data newydd. Roedd y nodau a'r rhesymeg hyn, a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu hystyried fel rhai hanfodol ar gyfer gweddill y rhaglen oherwydd (a) cymhlethdod y rhaglen, a (b) roedd y prif ganfyddiad yn y gwerthusiad o'r peilot cychwynnol (Siraj-Blatchford *et al.* 2005) yn ymwneud ag amrywiaethau yn y modd roedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith a'i ddehongli mewn lleoliadau peilot.
- 3.3 Fodd bynnag, roedd yn amlwg o ddechrau'r gwerthusiad fod angen dadansoddiad manylach a mwy trylwyr o'r dystiolaeth ddogfennol am y Cyfnod Sylfaen. Cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru bod angen i'r gwerthusiad baratoi model rhesymeg polisi yn gynnar wrth ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo gweddill y gwerthusiad.
- 3.4 Er bod adolygiad cychwynnol o holl ddogfennau Llywodraeth Cymru am y Cyfnod Sylfaen i fod i gael ei gynnal yn ystod y flwyddyn gyntaf, penderfynwyd cynnal dadansoddiad mwy trylwyr a systematig o'r deunyddiau a'r adnoddau. O ganlyniad i gynnal yr adolygiad hwn, o

dan arweiniad y cyd-gyfarwyddwr yr Athro Maynard a gyda chymorth y cynorthwyydd ymchwil, Jennifer Clement, roedd yn rhaid oedi datblygiad nifer o ddulliau casglu data pwysig, yn enwedig y cyfweiliadau gyda staff Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'r arolwg cenedlaethol o benaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen. Diben hyn oedd gwneud yn siŵr bod pob cwestiwn ynglŷn â sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddeall a'i roi ar waith yn cysylltu'n briodol â'r hyn yr ydym wedi'i alw'n 'fynegiant' swyddogol y Cyfnod Sylfaen - ac ar wahân, er enghraifft, i farn y bobl sy'n gweithio o fewn y Cyfnod Sylfaen am beth ydyw neu'r hyn y dylai fod yn eu tyb hwy. Yn erbyn y diffiniad 'swyddogol' hwn o'r Cyfnod Sylfaen (os mai hynny oedd bwriad datblygwyr gwreiddiol y Cyfnod Sylfaen ai peidio) yr ydym yn parhau i'w werthuso.

- 3.5 Un o brif oblygiadau hyn yw'r oedi sylweddol a fu wrth ddylunio a chymeradwyo arolwg cenedlaethol y penaeithiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen. Y bwriad gwreiddiol oedd ei gwblhau ymhen y chwe mis cyntaf (h.y. Chwefror 2011), ond ni chafodd ei gwblhau tan fis Mehefin 2012. Golygodd hynny na chylchredwyd yr arolwg yn wreiddiol tan fis Gorffennaf 2012. O ganlyniad i hynny, nid oedd yn bosibl cynnal unrhyw ddadansoddiad o ymatebion yr arolwg yn ystod y flwyddyn gyntaf fel y bwriadwyd yn wreiddiol.
- 3.6 Fodd bynnag, nid yw'r oedi yng nghynnydd a dadansoddiad yr arolwg wedi effeithio'n sylweddol ar weddill y gwerthusiad. Yn lle hynny, caiff ymatebion i'r arolwg eu dadansoddi yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad ochr yn ochr â gwaith yr astudiaethau achos.

Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (PADP)

- 3.7 Roedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i orfodi ysgolion i ddefnyddio'r Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (PADP) hefyd yn gam a allai fod wedi amharu ar gynnydd y gwerthusiad. Dyma'r teclyn a

ddatblygwyd ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion i gynnal asesiad sylfaen o'r plant ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

- 3.8 Yn y cynnig gwreiddiol ar gyfer y gwerthusiad, nodasom y byddai data o'r proffil hwn, a ddefnyddiwyd gan bob ysgol am y tro cyntaf yn ystod 2011/12, yn cael ei ddefnyddio i olrhain gwahanol grwpiau o blant ar sail eu galluoedd blaenorol.
- 3.9 O ystyried amserlen y gwerthusiad, nid oedd unrhyw obaith o allu dadansoddi 'cynnydd' plant rhwng yr oed ysgol statudol (pump oed) hyd at eu deilliannau diweddarach (e.e. Aseidiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen). Ni fyddai wedi bod yn bosibl ei gwblhau tan ar ôl 2013/14 pan mae'r gwerthusiad hwn i fod i ddod i ben.
- 3.10 Felly, ychydig iawn o effaith mae'r penderfyniad i beidio â gorfodi ysgolion i ddefnyddio'r PADP wedi'i chael ar y gwerthusiad. Fodd bynnag, fe gyflwynodd tîm y gwerthusiad amlinelliad o beth fyddai goblygiadau'r penderfyniad hwn yn eu tyb hwy i Lywodraeth Cymru. Yn benodol, pwysleisiodd mai dim ond cyfle cyfyngedig sydd gennym bellach i ddefnyddio a chyflwyno dull asesu ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen a'i roi ar waith, yn ogystal â rhoi data imperialaidd am ei werth a'i bwysigrwydd i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i beidio â'i orfodi yn adlewyrchu, i raddau, y farn negyddol am y PADP ymysg rhai ymarferwyr ac undebau athrawon.
- 3.11 Yn ail, mae'r penderfyniad hwn hefyd yn golygu na allwn ystyried rôl teclyn asesu ar ddechrau cyfnod yn llawn wrth ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer monitro a gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol.
- 3.12 Cafodd y pryderon cymharol fychain hyn eu cyflwyno a'u trafod gyda Grŵp Cynghori Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru⁴.

⁴ Mae Fframwaith Datblygu ac Asesu Blynyddoedd Cynnar newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Fe'i cyflwynir ledled Cymru maes o law yn haf 2014 a'i gyflwyno'n statudol fel yr asesiad ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen fis Medi 2014.

Tabl 3: Amserlen Fras ar gyfer y Gwerthusiad Tair Blynedd

	Casglu data	Dadansoddi data	Cerrig milltir/cynnyrch pwysig
6 mis	<ul style="list-style-type: none"> Dechrau casglu tystiolaeth ddogfennol Cynnal arolwg cenedlaethol o benaethiaid a rheolwyr canolfannau 		<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu gwefan y gwerthusiad
12 mis	<ul style="list-style-type: none"> Cyfweliadau gyda staff allweddol o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cau pen y mwdwl ar ganfod y data cyfredol sydd ar gael Cwblhau'r sampl o leoliadau ar gyfer casglu data'r astudiaethau achos 	<ul style="list-style-type: none"> Nodweddion sylfaen Dadansoddiad cychwynnol o ystadegau crynodol 	<ul style="list-style-type: none"> Canfyddiadau cychwynnol o arolwg cenedlaethol yr athrawon a rheolwyr canolfannau Adroddiad Blynyddol Diwedd Blwyddyn 1
18 mis	<ul style="list-style-type: none"> Cyfweliadau gyda phenaethiaid yn ysgolion yr astudiaethau achos Cyfweliadau gydag athrawon yn ysgolion yr astudiaethau achos Cyfres gyntaf o arsylwadau dosbarthiadau/ ysgolion Defnyddio data ychwanegol i ddiweddarau data cyfredol 	<ul style="list-style-type: none"> Y ddau ddadansoddiad cyntaf o'r dulliau mesur deilliannau 	<ul style="list-style-type: none"> Canfyddiadau cychwynnol o'r cyfweliadau gyda staff allweddol o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cwblhau Damcaniaeth y Rhaglen ar gyfer y Cyfnod Sylfaen – fel sail ar gyfer dadansoddi deilliannau a sylfeini'r Fframwaith Gwerthuso yn y dyfodol
24 mis	<ul style="list-style-type: none"> Ail gyfres o arsylwadau dosbarthiadau/ ysgolion Cynnal holiadur y rhieni Cynnal arolwg y disgyblion Defnyddio data ychwanegol i ddiweddarau data cyfredol 	<ul style="list-style-type: none"> Y trydydd dadansoddiad o'r dulliau mesur deilliannau Modelu ar sawl lefel 	<ul style="list-style-type: none"> Canfyddiadau cychwynnol o'r cyfweliadau gyda phenaethiaid ac athrawon yn lleoliadau'r astudiaethau achos Adroddiad Blynyddol Diwedd Blwyddyn 2

30 mis	<ul style="list-style-type: none"> • Trydedd gyfres o arsylwadau dosbarthiadau/ ysgolion • Arsyllwadau a chyfweliadau ychwanegol mewn lleoliadau cyn-ysgol • Defnyddio data ychwanegol i ddiweddarau data cyfredol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad arhydol 	<ul style="list-style-type: none"> • Canfyddiadau cychwynnol o holiadur y rhieni ac arolwg y disgyblion
36 mis		<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau dadansoddiad au drwy ddefnyddio data cyfredol a data cychwynnol ar y cyd 	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Terfynol ar Ddiwedd y Gwerthusiad • Fframwaith Gwerthuso

4 Gweithgareddau Ymchwil

4.1 Yn y bennod hon, rydym yn crynhoi'r prif weithgareddau ymchwil a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad.

Dadansoddiad o ddeunyddiau a chanllawiau'r Cyfnod Sylfaen

4.2 Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, dadansoddiad o'r holl ddeunyddiau, dogfennau a chanllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen oedd y gweithgaredd ymchwil cyntaf.

4.3 Paratoi model rhesymeg polisi cychwynnol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen oedd nod y gweithgaredd hwn. Fe'i cynhaliwyd yn bennaf er mwyn cynorthwyo dyluniad a chynnydd y gwerthusiad drwy amlygu'r hyn a allai gael ei alw'n 'fynegiant swyddogol' y Cyfnod Sylfaen a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.4 Cafodd hyn ei wneud drwy archwilio'r ddogfennaeth sydd ar gael sy'n ymwneud â sefydlu, datblygu a chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi ers datganoli yn 1999 hyd at ddechrau'r gwerthusiad yn 2011. Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008), a ategir gan gyfres o ganllawiau, yw'r brif ddogfen polisi sy'n sylfaen ar gyfer y cwricwlwm blynyddoedd cynnar newydd hwn.

4.5 Wrth baratoi model rhesymeg polisi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, fe wnaethom geisio amlinellu a disgrifio'r *cyd-destun* ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, ei *nodau*, ei resymeg *addysgol* (gan gynnwys yr *ymagwedd* ddamcaniaethol a'r *addysgeg* a awgrymir), ei *fewnbynnau* (gan gynnwys ei *gwricwlwm statudol*), ei *brosesau a'i weithgareddau*, a'i *ddeilliannau* bwriadedig.

4.6 Mae adroddiad manylach sy'n amlinellu'r broses ddadansoddi, y dogfennau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad, y model

rhesymeg polisi a'r ddamcaniaeth rhaglen ddilynol, yn ogystal â chasgliadau'r gwaith, yn cael ei gyhoeddi ar wahân (Maynard *et al.* 2013).

Cyfweliadau gyda rhan-ddeiliaid (Swyddogion Llywodraeth Cymru, Cynghorwyr Cyfnod Sylfaen Awdurdodau Lleol, Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant)

- 4.7 Cyfweliadau gyda'r canlynol oedd yr ail brif weithgaredd ymchwil yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad:
- Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arwain y broses o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith
 - Cynghorwyr Cyfnod Sylfaen Awdurdodau Lleol
 - Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant Awdurdodau Lleol.
- 4.8 Yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2012, cynhaliwyd cyfweliadau gyda thri o bobl oedd yn rhan ganolog o'r broses o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Rhoi amserlen ar gyfer dylunio'r Cyfnod Sylfaen, ei roi ar waith a'i gyflwyno o'r cychwyn cyntaf oedd nod y cyfweliadau. Cynhaliwyd pob cyfweliad wyneb yn wyneb a recordiwyd y sain.
- 4.9 Er bod y cyfweliadau o gymorth mawr wrth ail-greu amserlen ar gyfer datblygu'r Cyfnod Sylfaen ac o ran amlygu'r hyn a ystyriwyd fel y prif faterion mewn cysylltiad â'r Cyfnod Sylfaen, codwyd sawl mater sensitif ynglŷn â sut y cafodd ei ddatblygu. Roedd y rhain yn ymwneud â'r broses o lunio polisiau a phennu cynnwys y Cyfnod Sylfaen.
- 4.10 Felly, codwyd cwestiynau pwysig yn ystod y cyfweliadau ynglŷn â sut y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn y lle cyntaf. I ryw raddau, hwyrach bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y casgliadau a'r cwestiynau y mae'r gwerthusiad wedi'u codi ar ôl y dadansoddiad dogfennol o fynegiant 'swyddogol' y Cyfnod Sylfaen.

- 4.11 Fodd bynnag, ar ôl trafod gyda Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru am y Cyfnod Sylfaen, teimlwyd na ddylai'r gwerthusiad ganolbwyntio'n ormodol ar y modd y cafodd y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno a'i sefydlu oni bai bod modd cysylltu anawsterau wrth ei roi ar waith a'i gyflwyno ar hyn o bryd â'r polisïau gwreiddiol. Felly, penderfynodd tîm y gwerthusiad beidio â bwrw ymlaen â chynnal cyfweiliadau ychwanegol gyda rhan-ddeiliaid am ddechrau'r broses. Yn lle hynny, bydd y cyfweiliadau hyn, sy'n debygol o gael eu cynnal drwy gydol y gwerthusiad yn ôl yr angen, yn canolbwyntio ar faterion neu bryderon cyfredol ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen. Dim ond os gellir dangos bod tarddiad unrhyw gwynion cyfredol yn gysylltiedig â'r broses o lunio polisïau y byddem yn dymuno ailedrych ar y maes hwn.
- 4.12 Gyda Chynghorwyr Cyfnod Sylfaen (CCS) yr Awdurdodau Lleol y cynhaliwyd y gyfres bwysig nesaf o gyfweiliadau yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad. Mae cynghorydd Cyfnod Sylfaen penodedig ym mhob awdurdod lleol. Gan amlaf, mae'r rhain yn gyfrifol am addysg blynyddoedd cynnar yn ei chyfanrwydd, ond hwyrach fod gan rai dyletswyddau a chyfrifoldebau addysgol ychwanegol. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn rheolaidd drwy Grŵp Cynghorwyr Cyfnod Sylfaen Cymru Gyfan (AWFPA).
- 4.13 Deall rôl y bobl hyn wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen oedd nod y cyfweiliadau hyn, yn ogystal â chael gwybod beth yw barn am lwyddiannau, heriau a dyfodol y rhaglen. Dyluniwyd y cyfweiliadau hyn hefyd i gynrychioli neu awgrymu beth yw cyd-destun ehangach eu sefydliad ar lefel awdurdod lleol.
- 4.14 Cafodd 19 CCS eu cyfweld i gyd, gan gynrychioli 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Cynhaliwyd bob cyfweiliad dros y ffôn a recordiwyd y sain, ond nid ydynt wedi'u trawsgrifio'n llawn eto. Parodd y cyfweiliadau rhwng tri chwarter awr a dwy awr. Gofynnwyd i'r rhai a holwyd nifer o gwestiynau oedd wedi'u dylunio i gael gwybod am eu profiadau personol a chael tystiolaeth anecdotaidd o'r Cyfnod Sylfaen

yn gyffredinol, eu perthynas â Llywodraeth Cymru, rôl eu hawdurdod lleol wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, a'r gefnogaeth y maent yn ei rhoi i ymarferwyr sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen.

- 4.15 Yn ogystal â Chynghorwyr Cyfnod Sylfaen awdurdodau lleol, cafodd 17 Swyddog Cefnogi Hyfforddiant (SCH) eu cyfweld hefyd. Mae pob awdurdod lleol yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i gyflogi un SCH. Athro neu athrawes sydd wedi'i secondio o ysgol o fewn yr awdurdod lleol yw'r swyddog fel arfer i gefnogi Cynghorwyr y Cyfnod Sylfaen wrth hyfforddi a chynorthwyo ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn eu hawdurdod.
- 4.16 Mae cyfweiliadau ychwanegol wedi'u cynnal hefyd gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant, Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru a Mudiad Meithrin.
- 4.17 Er bod y cyfweiliadau hyn yn parhau i gael eu dadansoddi'n drylwyr ac y byddant yn parhau i gael eu datblygu wrth i ni gasglu data ategol arall o'r ysgolion, mae nifer o ganfyddiadau pwysig yn dechrau dod i'r amlwg. Caiff adroddiad manylach am y canfyddiadau hyn ei gyhoeddi nes ymlaen yn y gwerthusiad, ond rydym yn paratoi crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol.
- 4.18 Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y Cyfnod Sylfaen gan y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran ac roedd llawer o'r CCS yn teimlo ei fod yn cydfynd â beth yw 'arferion da' yn eu barn nhw. Roedden nhw hefyd yn siarad mewn modd cadarnhaol am y modd y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn y lle cyntaf ac roeddent yn teimlo eu bod yn deall 'gweledigaeth' y cwricwlwm newydd a'r ymagwedd i'r dim. Yn yr un modd, aeth sawl CCS a SCH mor bell â dweud eu bod wedi cymryd camau arloesol yn natblygiad y Cyfnod Sylfaen ar ôl bod yn hynod ragweithiol yn ei ddatblygiad yn eu hawdurdodau lleol. Dywedodd CCS fod datblygiadau o'r fath yn aml yn cael eu gwneud gydag ymarferwyr i geisio osgoi sefyllfa lle cyflwynir y Cyfnod Sylfaen o'r brig i lawr.

- 4.19 Fodd bynnag, tynnodd y cyngorwyr a'r swyddogion hyn sylw bod angen cyfathrebu'n effeithiol ac yn barhaus gydag ysgolion wrth helpu i ddiffinio a deall y Cyfnod Sylfaen. Roedd pob un yn cydnabod yr amrywiaeth yn y modd y dehonglir y Cyfnod Sylfaen a'r agweddau tuag ato, yn ogystal â sut mae hynny'n dylanwadu ar arferion mewn ysgolion a dosbarthiadau yn ôl pob golwg. Roeddent o'r farn ei bod yn hanfodol bod ysgolion ac ymarferwyr yn cael negeseuon clir a chyson am y Cyfnod Sylfaen.
- 4.20 Daeth i'r amlwg fod y modd y llwyddir i roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Nodwyd hefyd y bu gwahaniaethau rhwng y ffordd y rhoddir y Cyfnod Sylfaen ar waith yn y sector a gynhelir a'r sector na chynhelir. Yr ymagwedd gymharol 'ddatganoledig' o'i roi ar waith a'i gefnogi oedd yn bennaf gyfrifol am hyn yn ôl pob golwg. Felly, roeddent yn mynnu mai'r modiwlau hyfforddiant cychwynnol – a groesawyd yn gyffredinol - oedd yr unig ddylanwadau 'cenedlaethol' ar ymarferwyr. Mae hyn felly'n amlygu pa mor bwysig yw'r ffordd y mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr wedi *dehongli'r* Cyfnod Sylfaen. Yn benodol, dywedodd y CCS fod ymarferwyr wedi camddechongli'r cysyniad o 'chwarae', sef un o ffactorau diffiniol pwysicaf y Cyfnod Sylfaen. Yn ôl y cyngorwyr, y ffordd y defnyddiwyd y term yn nogfennaeth wreiddiol Llywodraeth Cymru am y Cyfnod Sylfaen oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.
- 4.21 Yn ôl pob tebyg, roedd dau ffactor pwysig arall wedi dylanwadu ar roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus yn ôl y rhai a gymerodd ran. Agweddau penaethiaid ac uwch-dimau rheoli'r ysgolion tuag at y Cyfnod Sylfaen oedd y ffactor cyntaf. Tybiwyd bod yr agweddau hyn yn ganolog o ran i ba raddau y mabwysiadwyd y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion, ac roedd yn debyg i'r canfyddiad mewn gwerthusiad blaenorol o'r pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 (Morris a McCrindle 2010). Yn ail, tybiwyd bod sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau'r athrawon newydd gymhwyso a'r cynorthwywyr dysgu ac addysgu hefyd yn bwysig wrth ei roi ar waith.

- 4.22 Yn gyffredinol, helpu i ganfod y cydbwysedd rhwng gweithgareddau a 'ddechreuir gan blentyn' a'r rhai a 'gyfarwyddir gan oedolyn' oedd y gefnogaeth fwyaf cyffredin a roddodd y CCS a'r SCH i ysgolion ac ymarferwyr. Mae arwyddocâd y gwahaniaethau rhwng yr ymagweddau addysgeg hyn eisoes wedi'i amlygu yn ein hadroddiad am y model rhesymeg polisi a damcaniaeth rhaglen y Cyfnod Sylfaen (Maynard *et al.* 2013).
- 4.23 Ar y cyfan, teimlwyd bod y Cyfnod Sylfaen wedi cael effaith sylweddol ar ymarferwyr yng Nghymru; yn enwedig o ran cadarnhau'r hyn oedd llawer eisoes yn ei ystyried fel 'arferion da' sydd eisoes yn bodoli, Roedd cefnogaeth frwd hefyd o blaid ymagwedd addysgeg sydd, yn ôl y cynghorwyr, yn ymateb i anghenion datblygol plant.
- 4.24 Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd hwyrach fod baich ychwanegol ar athrawon, yn enwedig o ran rheoli oedolion eraill yn y dosbarth. Mae hyn o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cynorthwywyr dysgu ac addysgu yn sgîl cefnogaeth Llywodraeth Cymru o blaid cymarebau plentyn-oedolyn (uwch) yn y Cyfnod Sylfaen.
- 4.25 Fodd bynnag, y pryder a fynegwyd dro ar ôl tro oedd yr hyn roeddent yn eu hystyried fel polisiâu addysgol neu gymedrolaidd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, tybiwyd y gallai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd yn ogystal â'r pwyslais cynyddol ar yr agenda safonau yn ôl pob golwg, wanhau neu'n amharu ar yr hyn y gallai'r Cyfnod Sylfaen ei gyflawni. Er eu bod yn deall bod safonau a chyrhaeddiad eisoes yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen, roedd y cydbwysedd rhwng hyn a nodau eraill y Cyfnod Sylfaen (e.e. lles cymdeithasol ac emosiynol ehangach ymysg plant yn y blynyddoedd cynnar hyn) yn mynd yn fwyfwy anodd ei chynnal. Dywedodd sawl CCS fod hyn yn peri i ymarferwyr ailgydio mewn dulliau dysgu ac addysgu ffurfiol a, mwy neu lai, troi eu cefnau ar y Cyfnod Sylfaen am o leiaf ran o'r diwrnod ysgol.

Arolwg o Benaethiaid ac Ymarferwyr Arweiniol y Cyfnod Sylfaen

4.26 Roedd arolwg cenedlaethol o benaethiaid ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cynradd a lleoliadau eraill a ariennir na chynhelir yn nodwedd bwysig arall ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad. Dylunio, cylchredeg a dadansoddi'r arolwg hwn, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, oedd y bwriad gwreiddiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes ym Mhenod 3, ni chyflawnwyd hyn yn llwyr. Yn lle hynny, ni chylchredwyd yr arolwg tan ddiwedd mis Mehefin 2012 a dechrau mis Gorffennaf 2012. Ychydig iawn o amser oedd gan y rhai a gymerodd ran i lenwi'r arolwg a'i dychwelyd i dîm y gwerthusiad cyn diwedd blwyddyn ysgol 2011/12, ac felly 15% yn unig a ymatebodd o'r ysgolion a dim ond ychydig yn uwch oedd cyfradd ymateb y sector na chynhelir. Felly, ailgylchredwyd yr arolwg i bawb na wnaeth ymateb ar ddechrau blwyddyn ysgol 2012/13 i geisio cael mwy o ymateb. Roedd yr ymateb wedi cynyddu i 25% ar yr adeg y lluniwyd yr adroddiad hwn. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad.

4.27 Yn amlwg, amseriad y cylchrediad oedd un o'r prif resymau pam roedd y gyfradd ymateb yn isel ar y dechrau, gan ei bod mor agos i wyliau'r haf yn ogystal ag yn adeg prysur iawn o'r flwyddyn i ysgolion. Gyda lwc, hwyrach y bydd cylchredeg yr arolwg unwaith eto ar ddechrau Tymor yr Hydref yn helpu i wella'r broblem hon. Fodd bynnag, mae rhai penaeithiaid wedi dweud wrthym y dylem ddisgwyl ymateb isel oherwydd yr amharodrwydd cyffredinol i gymryd rhan mewn ymchwil, a bod yr undebau athrawon yn hyrwyddo'r safbwynt hwn yn ôl pob sôn. Er gwaethaf y pryder hwn, nid ydym wedi sylwi ar unrhyw amharodrwydd ymysg yr ysgolion y mae gennym berthynas waith gyda nhw (e.e. ysgolion a gynrychiolir ar Grŵp Cyngori Tim y Gwerthusiad).

4.28 Un o'r rhesymau dros oedi cyn cylchredeg yr arolwg oedd y cryn ofal a gymerwyd i wneud yn siŵr bod cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar ganfyddiadau'r dadansoddiad dogfennol blaenorol o ddeunyddiau ac

arweiniad Llywodraeth Cymru am y Cyfnod Sylfaen - sef y mynegiant 'swyddogol' ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Yn yr arolwg, rydym yn awyddus i edrych ar y ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i ddehongli a'i ddeall gan benaethiaid ac ymarferwyr allweddol y Cyfnod Sylfaen, a chymharu'r ymatebion hyn â'r mynegiant 'swyddogol'.

- 4.29 Mae'r arolwg hefyd wedi'i ddylunio i geisio casglu gwybodaeth fanwl gan ysgolion nad ydyw ar gael yn llawn yn PLASC. Yn benodol, rydym yn ceisio cael dadansoddiad o niferoedd staff ar lefel dosbarthiadau er mwyn cyfrifo cymarebau'r plentyn-oedolyn cywir ar gyfer pob ysgol.
- 4.30 Mae'r arolwg hefyd yn ceisio amlygu unrhyw wahaniaethau yn agweddau'r penaethiaid tuag at y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â'u myfyrdodau ar y llwyddiannau a'r heriau wrth ei roi ar waith.
- 4.31 Mae ail ran yr arolwg i'w llenwi gan rywun sydd â rhagor o gyfrifoldebau beunyddiol dros gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (ymarferydd arweiniol y Cyfnod Sylfaen fel arfer - a allai fod yn bennaeth hefyd). Gofynnwyd i'r rhain gwestiynau ychwanegol am agweddau ymarferwyr yn yr ysgolion ynglŷn â'r Cyfnod Sylfaen, sut mae'n cael ei roi ar waith a'i effaith arnynt hwythau a'u disgyblion. Gyda lwc, cawn weld hefyd pa fath o effaith mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael (neu heb ei chael) ar blant yn nhyb yr ymarferwyr a'r penaethiaid ac a ydyw wedi effeithio ar wahanol grwpiau o blant yn fwy nag ar eraill (e.e. bechgyn neu blant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig). Felly, rydym yn awyddus i gymharu'r safbwyntiau hyn â'r dadansoddiad data rydym eisoes wedi'i ddechrau (gweler isod).

Dadansoddi Data PLASC/NPD

- 4.32 Yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, dechreuasom ddadansoddiad cychwynnol o'r data sydd eisoes ar gael yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Cafwyd gafael ar yr holl ddata ar ôl cwblhau nifer o

Gytundebau Mynediad at Ddata gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am y data a'r amrywiaethau rydym yn cael eu gweld yn ogystal â'r amodau y mae'n rhaid i ni gadw atynt er mwyn defnyddio a chyflwyno'r data hwn. Cyn dechrau'r gwerthusiad hwn, paratowyd Cynllun Rheoli Data gennym sy'n sôn am y camau a gymerir i atal unrhyw un sydd heb awdurdod rhag gweld y data a sut byddwn yn gofalu bod yr unigolion yn y data yn parhau'n anhysbys.

4.33 Disgwylir i'r dadansoddiad cychwynnol o ddata a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad gael ei gyhoeddi yn 2013. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys mwy o fanylion am y data a ddefnyddir, ein technegau dadansoddi'r data, yn ogystal â'r canlyniadau cychwynnol hyn. Fodd bynnag, dyma grynodedb o brif nodweddion y gwaith.

4.34 Amlygu'r rheini sy'n cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen oedd un o'r meysydd gwaith cyntaf gyda'r data. Mae hyn yn gymhleth gan fod y Cyfnod Sylfaen wedi'i gyflwyno fesul tipyn ac o ran: (a) pa ysgolion oedd yn dilyn y Cyfnod Sylfaen (ac nid CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol), (b) pa grwpiau blwyddyn a ddechreuodd y Cyfnod Sylfaen yn gyntaf - pob dosbarth meithrin a dosbarth derbyn oedd y rhain ar rai adegau yn y broses gyflwyno, ond dim ond plant oed meithrin oeddynt ar adegau eraill, ac (c) disgyblion yn symud, ysgolion yn cau ac ysgolion yn uno.

4.35 Yn hollbwysig, mae'r dadansoddiad cychwynnol hwn wedi canolbwyntio'n helaeth ar gymharu'r gwahanol ysgolion oedd yn rhan o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen dros dri chyfnod gwahanol: yr ysgolion Peilot, yr ysgolion Dechrau Cynnar ac ysgolion y Cyflwyniad Terfynol. Mae rhan helaeth o ddyluniad y gwerthusiad yn seiliedig ar gymharu'r un carfanau o blant, gyda rhai ohonynt wedi dilyn y Cyfnod Sylfaen ac eraill sydd wedi dilyn CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. I wneud yn siŵr ein bod yn cymharu'n 'deg', roedd yn rhaid i ni ystyried unrhyw resymau posibl dros ddewis yr ysgolion ar gyfer pob un o'r cyfnodau hyn yn ogystal ag unrhyw wahaniaethau yn nodweddion y plant sy'n mynychu'r ysgolion dan sylw. Er enghraifft, mae'n gwbl amlwg bod yr ysgolion oedd yn rhan

o'r cyfnod Dechrau Cynnar yn tueddu i gynnwys disgyblion o deuluoedd a chymunedau hynod ddifreintiedig - o ganlyniad i'r cysylltiad rhwng yr ysgolion hyn â rhaglen Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, roedd y dewis ar gyfer ysgolion y Peilot (sef grŵp pwysig i'r ddadansoddi maes o law) yn llai eglur, ond mae'n edrych fel petai mwy o ddisgyblion cymdeithasol-economaidd difreintiedig yn yr ysgolion hyn ar gyfartaledd ac, yn anad dim, eu bod yn ysgolion sydd wedi bod yn tanberfformio cyn i'r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno ynddynt. Bydd mwy o ddata'n cael ei gasglu yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad er mwyn ystyried hyn yn fanylach.

4.36 Maes arall rydym wedi dechrau mynd i'r afael ag ef mewn cysylltiad â'r dull yw sut i gymharu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen (Asesiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen gyda phlant Blwyddyn 2). Er bod y ddogfennaeth yn awgrymu bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau asesiad (ym meysydd llythrennedd a rhifedd), mae'r ffordd y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen wedi'u defnyddio wedi amrywio'n sylweddol yn ôl pob tebyg, a'u bod wedi cael eu 'haddasu' yn ystod y blynyddoedd dilynol wrth i ymarferwyr ymgylfarwyddo â'r asesiadau hyn yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, mae'r 'amrywiadau' hyn yn golygu na ellir cymharu deilliannau CA1 a'r Cyfnod Sylfaen yn rhwydd.

4.37 Aethom ati hefyd i gynnal dadansoddiad disgrifiadol o gymarebau disgybl-oedolyn mewn ysgolion, ond nid yw ansawdd na chywirdeb y data hwn cystal â'r hyn sydd ar gael ar gyfer newidynnau eraill yn y data. Er enghraifft, nid ydym wedi gallu edrych ar gymarebau disgybl-oedolyn fesul grŵp blwyddyn gan mai dim ond data wedi'i agregu a gyflwynir gan rai ysgolion neu oherwydd y ffyrdd cymhleth y mae oedolion yn cael eu 'cysylltu' neu eu rhannu ar draws grwpiau blwyddyn a dosbarthiadau. Mae'r nifer gymharol uchel o ddosbarthiadau oedran cymysg sy'n tueddu i fodoli mewn ysgolion cynradd bychain yng Nghymru yn cymhlethu hyn ymhellach.

4.38 Er gwaethaf yr heriau hyn mewn cysylltiad â dull a dadansoddi, rydym wedi dechrau edrych ar effaith ymddangosiadol y Cyfnod Sylfaen ar dri

deilliant a fesurir: absenoldeb, deilliannau Blwyddyn (pan mae plant yn 6/7 oed), a deilliannau Blwyddyn 6 (pan mae plant yn 10/11 oed).

4.39 Mae canlyniadau'r rhain yn eithaf cymysglyd. Ar un olwg, mae'n edrych fel petai'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â lefelau uwch o absenoldeb heb ganiatâd yn ystod Blynyddoedd 1 a 2 yn yr ysgol, ond ceir hefyd peth tystiolaeth fod y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â deilliannau gwell yn CA2. Er mai dadansoddiad cychwynnol yw hwn, ac yn seiliedig ar nifer fach iawn o blant a fynychodd ysgolion Peilot y Cyfnod Sylfaen parthed deilliannau CA2, mae'r dadansoddiad yn awgrymu nad yw'r Cyfnod Sylfaen yn cael unrhyw effeithiau andwyol a difrifol ar lythrennedd a rhifedd yn y blynyddoedd cynradd. Bydd dadansoddiadau a gynhelir maes o law yn canolbwyntio ar i ba raddau y rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith mewn gwahanol ysgolion.

4.40 Bydd data'n parhau i gael ei ddadansoddi yng Nghyfnod II y gwerthusiad. Bydd hyn yn cynnwys data o 2011/12, sef y flwyddyn gyntaf pan fydd pob plentyn 6/7 oed wedi cael eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen (a chwricwlwm ac asesiadau CA1 wedi dod i ben yn llwyr). Byddwn hefyd yn gofyn am fwy o ddata PLASC ar gyfer plant CA2 rhwng 2004/05 a 2011/12 (ym Mlynnyddoedd 3 i 6) er mwyn i ni allu dadansoddi deilliannau CA2 yn gywir.

4.41 Tua diwedd yr ail flwyddyn, byddwn hefyd yn ceisio cyfuno'r data hwn â'r data a gasglwyd yn arolwg cenedlaethol y penaethiaid.

Dyluniad yr Astudiaeth Achos

4.42 Mae Cyfnod II y gwerthusiad yn ymwneud yn bennaf â chasglu data o nifer o ysgolion astudiaethau achos ledled Cymru. Wrth baratoi ar gyfer y rhan bwysig hon o'r gwerthusiad, rydym wedi bod yn datblygu ac yn paratoi dyluniad yr astudiaethau achos. Bydd y cynigion a'r dulliau penodol a ddefnyddir yn lleoliadau'r astudiaethau achos yn cael eu peilota ar ddechrau ail flwyddyn y gwerthusiad ac wedyn eu

cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedyn yn rhagweld y byddwn yn dechrau ymweld â lleoliadau astudiaethau achos o fis Tachwedd 2012 ymlaen.

4.43 Er nad oes disgwyl cwblhau manylion dyluniad yr astudiaeth achos tan yn hwyrach, gwnaethom orffen y cynigion ar gyfer lleoliadau'r astudiaethau achos yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad.

Trafodwyd a chymeradwywyd y rhain gyda Grŵp Cyngori Gwerthusiad y Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru.

4.44 Gellir rhannu lleoliadau'r astudiaethau achos yn 'lleoliadau ysgolion' a gynhelir (derbyn, grwpiau Blynyddoedd 1 a 2), a'r 'lleoliadau cyn-ysgol' na chynhelir (gan gynnwys dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion babanod/cynradd, ysgolion meithrin a lleoliadau eraill na chynhelir i blant 3-4 oed).

4.45 Mae'r gwerthusiad yn bwriadu casglu data mewn o leiaf 40 o 'leoliadau ysgol'. Dewiswyd y rhain gan ddefnyddio dull samplu haenedig ar hap: maent wedi'u haenu yn ôl (a) pedair rhanbarth consortia addysgol Cymru, a (b) y tri chyfnod cyflwyno. Ar ben hynny, pennwyd isafswm targed *a priori* o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'w cynnwys yn y 40 ysgol hyn. Pe na fyddai'r dull samplu haenedig ar hap yn cynhyrchu'r nifer ofynnol o ysgolion Cymraeg, byddai ysgolion Cymraeg ychwanegol yn cael eu dewis ar hap, gan gynyddu nifer gyffredinol y 'lleoliadau ysgol' yn yr astudiaeth achos.

4.46 Er gwaethaf y penderfyniad i haenu'r sampl mewn sawl ffordd, mae dewis 'lleoliadau ysgol' yr astudiaethau achos ar hap yn egwyddor bwysig, ond nid o anghenraid er mwyn sicrhau bod modd defnyddio ein canfyddiadau yng nghyd-destun ysgolion eraill, sy'n nodweddiadol gyffredin wrth ddewis ar hap. Mae manteision yn gysylltiedig â hyn wrth gyflwyno'r canfyddiadau, ond bydd nifer yr astudiaethau achos yn rhy fach i allu cyffredinoli ar sail unrhyw arwyddocâd ystadegol. Y rheswm dros ddewis lleoliadau astudiaethau achos ar hap oedd er mwyn ceisio

gwneud yn siŵr fod gennym 'amrywiaeth' o ran y ffyrdd posibl y cafodd y Cyfnod Sylfaen ei roi ar waith neu ei gyflwyno. Y prif fwriad y tu ôl i hyn yw creu teipoleg cyflwyno i'w ddefnyddio ochr yn ochr â dadansoddi data i weld a oes unrhyw gysylltiad rhwng y ffordd y cafodd ei roi ar waith a chyrhaeddiad.

4.47 Fel arall, byddem wedi gorfod dewis lleoliadau'r astudiaethau achos ar sail rhywfaint o wybodaeth flaenorol - ond byddai hyn wedi bod dibynnu ar naill ai gwybodaeth oddrychol ymysg rhan-ddeiliaid allweddol (a allai fod yn anghywir ar ôl archwilio'n fanylach) neu'n seiliedig ar ddadansoddiad blaenorol o ddata megis data am ddeilliannau (ond gallai fod pob un ohonynt wedi bod yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn yr un modd). Un o brif nodau'r gwerthusiad yw ystyried sut y rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith, ac mae'r gwerthusiad peilot wedi awgrymu bod amrywiaeth o ddulliau. Felly, oni bai bod rhyw ffordd o amlygu'r amrywiaethau yn y dull cyflwyno mewn modd gwrthrychol, dewis lleoliadau ar hap oedd yr ymagwedd fwyaf priodol yn ôl pob golwg.

4.48 Mae Tabl 4 yn crynhoi'r ffordd y dewiswyd 'lleoliadau ysgol' yr astudiaethau achos. Mae nifer yr ysgolion, a ddewiswyd ar hap fesul consortia wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llawn, yn cyfateb i nifer yr ysgolion cynradd yn rhanbarth pob consortia. Yn yr un modd, mae nifer yr ysgolion Cymraeg a dargedwyd yn cyfateb i gyfanswm nifer yr ysgolion Cymraeg yng Nghymru. Wrth ddewis yr ysgolion Cymraeg, rydym yn defnyddio dull dynodi swyddogol yn ôl Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y gall hyn gynnwys amrywiaeth eang o ysgolion Cymraeg ac fe nodir hyn yn ein dadansoddiad dilynol.

Tabl 4: Dewis ‘Lleoliadau Ysgol’ ar gyfer Astudiaethau Achos

	Rhanbarth Consortia			
	Gogledd ⁵	Y Gorllewin a'r Canolbarth ⁶	Canol De Cymru ⁷	Y De- ddwyrain ⁸
Ysgolion peilot	5 ysgol a ddewiswyd ar hap ledled Cymru			
Ysgolion Dechrau Cynnar	5 ysgol a ddewiswyd ar hap ledled Cymru			
Ysgolion Cyflwyno Terfynol	10	14	9	7
Ysgolion Cymraeg	14 (targed o 13 ysgol)			

4.49 Os nad yw ysgolion ar gael i gymryd rhan yn y gwerthusiad, byddwn yn dewis ysgol arall ar hap i gymryd eu lle ac sy'n cyfateb i'r ysgol wreiddiol ar sail y meini prawf canlynol: cyfnod cyflwyno; awdurdod lleol; a/neu gyfrwng yr addysg.

4.50 Mae'r dull dewis a amlinellir yn Nhabl 4 yn golygu bod ysgolion Peilot ac ysgolion Dechrau Cynnar wedi'u gorgynrychioli yn y sampl. Fodd bynnag, penderfynwyd bod angen gwneud hyn am ddau reswm. Yn gyntaf, mae gor-gynrychiolaeth o ysgolion y Cyfnod Peilot yn y gwerthusiad o ddefnydd er mwyn cymharu'r cynnydd mewn ysgolion sydd wedi bod yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn hirach nag ysgolion eraill. Mae gorgynrychioli'r ysgolion hyn hefyd wedi bod o ddefnydd o ran ein galluogi i ystyried unrhyw effaith y gallai'r Peilot fod wedi'i chael yn y dadansoddiad data. Yn ail, mae gorgynrychioli lleoliadau Dechrau Cynnar, sy'n tueddu i fod mewn ardaloedd difreintiedig, o ddefnydd wrth ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen mewn ardaloedd o'r fath, yn ogystal ag wrth gymharu cynnydd mewn ysgolion sydd wedi bod yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen am gyfnod ychydig yn hirach nag ysgolion eraill.

⁵ Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

⁶ Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

⁷ Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

⁸ Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Cas-gwent a Thorfaen.

4.51 Defnyddiwyd dull ychydig yn wahanol wrth samplu astudiaethau achos mewn 'lleoliadau cyn-ysgol'. Fe'u dewisir yn gyfan gwbl ar sail y ffordd y caiff y 'lleoliadau ysgolion' uchod eu samplu. Defnyddir dau ddull i ddewis lleoliadau o'r fath. Os oes gan 'leoliad ysgol' mewn astudiaeth achos ddosbarth meithrin, caiff ei dewis fel mater o drefn. Felly, pe byddai dosbarth/uned feithrin ym mhob un o'r 40 lleoliad ysgol yn yr astudiaethau achos, byddem wedi dewis 40 lleoliad cyn-ysgol. Byddem hefyd wedi ceisio amlinellu'r amrywiaeth o leoliadau cyn-ysgol eraill a ddefnyddir gan blant sy'n mynychu 'lleoliadau ysgol' yr astudiaethau achos. Lleoliadau na chynhelir fydd y rhain yn bennaf. Ar ôl cwblhau'r amlinelliad hwn, byddwn wedyn yn mynd ati i ddewis lleoliadau na chynhelir a ariennir (yn ogystal â lleoliadau na chynhelir nad ydynt yn cael eu hariannu, o bosibl) er mwyn eu cynnwys yn y dadansoddiad data. Bydd union nifer o 'leoliadau cyn-ysgol' mewn astudiaethau achos yn dibynnu ar y sampl terfynol o'r lleoliadau a'r gwaith amlinellu.


5 Dosbarthu a rhwydweithio

- 5.1 Yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau i'w hyrwyddo ac i annog pobl i gymryd rhan ynddo. Bydd y gwaith hwn yn datblygu'n sylweddol yn ystod yr ail flwyddyn wrth i ni ddechrau cyhoeddi adroddiadau o'r gwerthusiad ac ymweld ag ysgolion a lleoliadau.
- 5.2 Wedi i WISERD, Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r gwerthusiad yn y lle cynaf, a sefydlu ein gwefan ar gyfer y gwerthusiad (gweler Ffigur 3), rydym wedi dechrau llunio rhestr gyfathrebu o'r unigolion a'r sefydliadau sydd â diddordeb yn y gwerthusiad. Wrth i'r gwerthusiad ddechrau gyflwyno ei ganfyddiadau, defnyddir y rhestr gyfathrebu hon i hyrwyddo'r gwaith. Mae gwefan y gwerthusiad hefyd yn rhoi newyddion am yr ymchwil a bydd pob adroddiad ar gael yn electronig hefyd.
- 5.3 Er mwyn ceisio cyfathrebu'r gwerthusiad, paratowyd dalen wybodaeth dwy dudalen (Cymraeg a Saesneg) gennym sy'n crynhoi nodau a dyluniad y gwerthusiad, yn ogystal â'n manylion cyswllt a dolenni i'r wefan (gweler Atodiad A).
- 5.4 Ochr yn ochr â sefydlu ein Grŵp Cyngori Tîm y Gwerthusiad sy'n cynnwys ymarferwyr a chynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau (gweler Pennod 2) a Grŵp Cyngori Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gweler Pennod 2), rydym hefyd wedi cyflwyno gwaith y gwerthusiad mewn dau o gyfarfodydd Grŵp Cyngori Cyfnod Sylfaen Cymru Gyfan, yn ogystal â dechrau cael cyfarfodydd gydag Estyn i drafod gwaith maes yr astudiaethau achos.
- 5.5 Ar ben hynny, rydym wedi rhoi cyflwyniad am y gwerthusiad mewn dwy gynhadledd academiaidd. Cynhadledd flynyddol WISERD oedd y cyntaf, a gynhaliwyd ym Mangor yn 2012, a chynhadledd ryngwladol (Byd Plentyn: Cydweithio er Dyfodol Gwell) yn Aberystwyth ym mis

Mehefin 2012 oedd yr ail. Mae'r rhain wedi bod yn gynadleddau pwysig o ran rhoi'r cyfle i ni rannu nodau a dyluniad y gwerthusiad gydag ymchwilwyr eraill yng Nghymru a thu hwnt.

- 5.6 Yn ystod y gwerthusiad, rydym yn bwriadu trefnu cynhadledd am y Cyfnod Sylfaen yng Nghaerdydd i geisio dod â phawb sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen ynghyd, gan gynnwys academyddion prifysgolion, ymchwilwyr annibynnol ac ymarferwyr. Bydd hefyd yn gyfle i gyflwyno a thrafod y gyfres gyntaf o ganfyddiadau'r gwerthusiad. Yn ôl pob tebyg, bydd gwahoddiad i'r gynhadledd yn agored i bawb sydd â diddordeb yn y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys llunwyr polisïau, ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn y Cyfnod Sylfaen.
- 5.7 Yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, rydym yn rhagweld y byddwn yn paratoi nifer o adroddiadau ymchwil. Bydd y rhain yn cynnwys adroddiad am y dadansoddiad data cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, adroddiad am y cyfweiliadau gyda Chynghorwyr Cyfnod Sylfaen yr awdurdodau lleol a'r Swyddogion Cefnogi Hyfforddiant, yn ogystal ag adroddiad am arolwg cenedlaethol y penaethiaid ac ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Caiff pob un o'r adroddiadau hyn eu cyhoeddi mewn cysylltiad â'r gyfres o adroddiadau Ymchwil Gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru.
- 5.8 Yn yr un modd, wrth gyhoeddi adroddiadau ymchwil a dechrau'r gwaith yn lleoliadau'r astudiaethau achos, bydd tîm y gwerthusiad yn ystyried datblygu deunyddiau ychwanegol i'w dosbarthu. Bydd y rhain yn cynnwys *llyfrynau* sy'n crynhoi canfyddiadau am y Cyfnod Sylfaen i ymarferwyr yn ogystal â *chylchlythyr* rheolaidd sy'n rhoi newyddion am gynnydd y gwerthusiad i'r rheiny sydd â diddordeb yn yr astudiaeth neu'n cymryd rhan ynddo (gan gynnwys ysgolion a rhieni/gofalwyr).

Ffigur 3: Gwefan y Gwerthusiad



6 Camau Nesaf: 2012/13

- 6.1 Mae Tabl 3 yn rhoi'r amserlen wreiddiol fras ar gyfer tair blynedd y gwerthusiad. Er gwaethaf y mân oedi wrth gasglu a dadansoddi rhai elfennau o'r rhaglen (fel y nodwyd yn gynharach), mae'r amserlen ymchwil ar gyfer ail flwyddyn y gwerthusiad (Cyfnod II) yn parhau'r un fath ac ar y trywydd cywir.
- 6.2 Mae Tabl 5 yn rhoi rhaglen waith fanylach ar gyfer ail flwyddyn y gwerthusiad (2012/13). Mae'n cynnwys amserlen fras ar gyfer cerrig milltir a chynnyrch pwysig i'w cyflawni yn ystod y cyfnod hwn.
- 6.3 Bydd Cyfnod II y gwerthusiad yn ymwneud yn bennaf â'r gyfres gyntaf o ymweliadau astudiaethau achos. Bydd hyn yn cynnwys 40 ymweliad ag ysgolion yn ogystal â nifer o ymweliadau ychwanegol â lleoliadau na chynhelir a ariennir, fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1. Bydd yr ymweliadau hyn yn cynnwys cyfweliadau gyda phenaethiaid, athrawon y Cyfnod Sylfaen a chynorthwywyr dysgu ac addysgu'r Cyfnod Sylfaen.
- 6.4 Bydd yr ymweliadau hefyd yn cynnwys arsylwi o leiaf un dosbarth ym mhob blwyddyn yn y Cyfnod Sylfaen – meithrin (os yn berthnasol), derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Arsyllwir ar bob grŵp oedran, ar wahân i'r grŵp meithrin, yn ystod y bore a'r prynhawn yn ystod yr ymweliad. Mae'r arsyllwadau wedi'u dylunio i roi cipolwg ar sut mae dosbarth/gweithgaredd yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei drefnu a'i gyflwyno. Plant fydd yn cael eu harsylwi'n bennaf er mwyn (a) asesu'r addysgeg a'r gweithgareddau cwricwlwm y maent yn cymryd rhan ynddynt, (b) mesur i ba raddau maent yn cymryd rhan yn y gweithgaredd neu'r gweithgareddau hyn, ac (c) i roi ryw syniad sut mae eu lles yn ystod y gweithgaredd neu'r gweithgareddau hyn.

- 6.5 Yn ogystal ag arsylwi disgyblion, bydd yr ymchwilwyr yn arsylwi'r staff ym mhob dosbarth er mwyn ystyried eu rôl a'u perthynas gyda'r disgyblion.
- 6.6 Mae'r arsylwadau hyn wedi'u dylunio i greu dau brif dangosydd ar gyfer pob ysgol: (1) i ba raddau mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith a'i gyflwyno ym mhob ysgol ac ym mha ffurf; (2) awgrym o les y plant ym mhob ysgol.
- 6.7 Yn olaf, bydd pob ymweliad yn ystod Cyfnod II y gwerthusiad yn cynnwys arolwg i'w gyflawni gan blant Blwyddyn 2. Bydd wedi ei ddylunio i fod yn debyg i'r arolwg i blant saith oed yn Astudiaeth Carfan y Mileniwm a bydd yn ein galluogi i gymharu agweddau a lles plant yn y Cyfnod Sylfaen ag ymatebion y plant a gwblhaodd arolwg Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn 2007/08.
- 6.8 Yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, disgwyliwn gyhoeddi cyfres o adroddiadau ymchwil am wahanol agweddau ar y gwerthusiad, fel yr amlinellwyd yn Nhabl 5.
- 6.9 Rydym hefyd yn bwriadu trefnu cynhadledd yng Nghaerdydd a gwahodd pawb sy'n ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen i rannu eu hymchwil a'u profiadau ohono. WISERD a thîm y gwerthusiad fydd yn cynnal y digwyddiad un-dydd hwn.
- 6.10 Bydd tîm y gwerthusiad hefyd yn ceisio rhannu canfyddiadau'r gwerthusiad mewn cynadleddau academaidd rhyngwladol eraill. Dyma ffordd bwysig i ni feithrin ein dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen yn ogytal â galluogi ein cyd-academyddion i werthuso ein casgliadau.

Tabl 5: Rhaglen Waith Fanwl Bosibl ar gyfer 2012/13

2012/13

Medi 2012

Dulliau casglu data peilot ar gyfer ymweliadau astudiaethau achos
Cau pen y mwdwl ar sampl yr astudiaethau achos
Ailanfon arolwg cenedlaethol yr ysgolion/lleoliadau

Hydref 2012

Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad Model Rhesymeg Polisi' i'w gyhoeddi
Drafftio 'Adroddiad Blynyddol 2011/12'
Drafftio'r 'Adroddiad Dadansoddi Data Cyntaf'
Drafftio 'Adroddiad Cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol'
Dechrau cysylltu ag 20 ysgol fydd yn yr astudiaethau achos

Hydref 2012

Cwblhau 5 ymweliad ag ysgolion mewn astudiaethau achos
Cau pen y mwdwl ar yr 'Adroddiad Dadansoddi Data Cyntaf' i'w gyhoeddi
Cyhoeddi 'Adroddiad Model Rhesymeg y Polisi'
Gorffen cyflwyno data o arolwg cenedlaethol yr ysgolion/lleoliadau
Ceisiadau newydd am ddata PLASC/NPD ar gyfer Cyfnod II

Rhagfyr 2012

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion mewn astudiaethau achos
Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad Blynyddol 2011/12' i'w gyhoeddi
Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad Cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol' i'w gyhoeddi
Cyhoeddi'r 'Adroddiad Dadansoddi Data Cyntaf'
Dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion i'r arolwg cenedlaethol
Derbyn data PLASC/NPD newydd gan Lywodraeth Cymru

Ionawr 2013

Cysylltu â'r 20 ysgolion mewn astudiaethau achos sy'n weddill
Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion mewn astudiaethau achos
Galw am bapurau ar gyfer Cynhadledd Ymchwil y Cyfnod Sylfaen
Cyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol 2011/12'

Cyhoeddi 'Adroddiad Cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol'
Cyflwyno canfyddiadau cychwynnol o arolwg cenedlaethol yr ysgolion/
lleoliadau i Lywodraeth Cymru
Cwblhau'r cyfweiliadau sy'n weddill gyda'r rhan-ddeiliaid
Dechrau'r dadansoddiad gan ddefnyddio data PLASC/NPD newydd

Chwefror 2013

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion mewn astudiaethau achos
Drafftio 'Adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol'

Mawrth 2013

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion mewn astudiaethau achos
Cau pen y mwdwl ar 'Adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol' i'w gyhoeddi
Cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad cychwynnol o ddata PLASC/NPD
wedi'i ddiweddarau

Ebrill 2013

Dewis lleoliadau ychwanegol na chynhelir a ariennir a chysylltu â nhw
Cau pen y mwdwl ar raglen Cynhadledd Ymchwil y Cyfnod Sylfaen

Mai 2013

Cwblhau 7 ymweliad ag ysgolion mewn astudiaethau achos
Cyhoeddi 'Adroddiad yr Arolwg Cenedlaethol'
Drafftio'r 'Ail Adroddiad Dadansoddi Data'

Mehfin 2013

Cwblhau'r ymweliadau ychwanegol â lleoliadau na chynhelir a ariennir

Gorffennaf 2013

Cwblhau'r ymweliadau ychwanegol â lleoliadau na chynhelir a ariennir
Cynhadledd Ymchwil y Cyfnod Sylfaen (Caerdydd)
Dechrau dadansoddi ymweliadau astudiaethau achos Cyfnod II
Cau pen y mwdwl ar yr 'Ail Adroddiad Dadansoddi Data' i'w gyhoeddi

Awst 2013

Cau pen y mwdwl ar ddyluniad a rhaglen Cyfnod III y gwerthusiad

Drafftio arolwg y rhieni i gael sêl bendith Llywodraeth Cymru

Medi 2013

Cyflwyno'r canfydiadau cychwynol presennol o ymweliadau astudiaethau achos Cyfnod II i Lywodraeth Cymru

Drafftio 'Adroddiad Blynyddol 2012/13'

Cyflwyno'r canfyddiadau yng nghynadledd flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain

Cyhoeddi'r 'Ail Adroddiad Dadansoddi Data'

Cyfeiriadau

- Brown, C.A. a Lilford, R.J. (2006) The stepped wedge trial design: a systematic review, *BMC Medical Research Methodology*, 6, 54.
- Heckman, J.J. (2008) Schools, Skills and Synapses, *Economic Inquiry*, 46, 289–324.
- Hussey, M.A. a Hughes, J.P. (2007) Design and analysis of stepped wedge cluster randomised trials, *Contemporary Clinical Trials*, 28, 2, 182-191.
- Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2013) *Evaluating the Foundation Phase: Policy Logic Model and Programme Theory*, Social Research no. 37/2012, Caerdydd: Llywodraeth Cymru
- Morris, M. a McCrindle, L (2010) *Exploring Education Transitions for Pupils Aged 6 to 8 in Wales*, Social Research no. 01/2010, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F. (2005) Monitoring and evaluation of the effective implementation of the Foundation Phase (MEEIFP) Project across Wales – Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Siraj-Blatchford, I., Milton, E., Sylva, K., Laugharne, J. a Charles, F. (2007) Developing the Foundation Phase for 3-7 year olds in Wales, *The Welsh Journal of Education*, 14, 1, 43-68.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhestr o'r Prif Eirfa

Costau a dadansoddiad o'r canlyniadau	Ffordd o ddadansoddi cost-effeithiolrwydd yw hon sy'n ceisio amlygu costau gros a net yr ymyriad. Yn benodol, mae'n ystyried manteision ariannol cyflwyno'r ymyriad o gymharu ag ymyriadau eraill (neu barhau â'r un drefn). Mae hefyd yn ystyried costau'r cyfle i roi'r ymyriad ar waith. Gyda'r dull hwn, ni phennir cymhareb penodol ar gyfer cyfanswm y gost-effeithiolrwydd. Yn lle hynny, paratwir cyfriflen o fewnbynau (costau) a deilliannau (manteision).
Modelu ar sawl lefel	Math o ddadansoddiad ystadegol yw hwn sy'n defnyddio data a drefnir ar fwy nag un lefel (h.y. data a gedwir o fewn adrannau eraill). Er enghraifft, gallai unedau dadansoddi mewn model aml-lefel gynnwys data am ddisgyblion unigol, yr ysgol y maent yn mynd iddi a'r awdurdodau lleol lle mae'r ysgolion hyn. Yn anad dim, mae modelau ar sawl lefel yn ystyried cydrannau ar bob lefel yn yr hierarchaeth gan alluogi'r dadansoddiad i amcangyfrif effeithiau a welwyd neu na welwyd ar grwpiau.
Dyluniad cyflwyno fesul tipyn	Defnyddir hwn mewn gwerthusiadau lle cyflwynir yr ymyriad mewn modd dilynol i'r rhai sy'n cymryd rhan (boed fel unigolion neu glystyrau o unigolion) dros sawl cyfnod amser. Cesglir data ar gyfer pob grŵp newydd sy'n cymryd rhan wrth iddynt dderbyn yr ymyriad yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn derbyn yr ymyriad (y grwpiau rheoli). I weld pa mor effeithiol yw'r ymyriad, cymherir data o'r grwpiau rheoli â'r rheiny sydd yn derbyn yr ymyriad ar wahanol adegau.

Atodiad A. Dalen Wybodaeth

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

Gwerthusiad annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru


Y Cyfnod Sylfaen yw un o bolisiau mwyaf cyffrous Llywodraeth Cymru, ac mae'n dra gwahanol i'r dulliau sy'n fwy seiliedig ar allu ac yn cael eu gyrru gan asesiadau o gyflwyno addysg plentynod cynnar sydd wedi'u mabwysiadu mewn mannau eraill. Mae'r polisi wedi'i roi ar waith fesul cam dros y saith mlynedd diwethaf, a'r flwyddyn nesaf bydd yn cynnwys pob plentyn 3-7 oed yng Nghymru. Mae gwerthusiad trylwyr ond sensitif yn hanfodol yn awr i sicrhau bod gweithrediad y polisi yn mynd rhagddo'n dda a'i fod yn hyrwyddo dysgu effeithiol i bob plentyn yng Nghymru.

Mae'r gwerthusiad hwn yn dwyn ynghyd tîm proffil uchel sydd â chryn brofiad o ymchwilio ym meysydd addysg plentynod cynnar, gweithredu polisi, effeithiolrwydd ysgolion a dadansoddi economaidd. Mae gan aelodau'r tîm brofiad helaeth o weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion Cymru.

Mae pedwar prif nod i'r gwerthusiad:

1. Gwerthuso pa mor dda mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu ac amlygu ffyrdd i allu gwneud gwelliant (y *gwerthusiad o'r broses*);
2. Gwerthuso pa effaith mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i chael hyd yma (y *gwerthusiad o'r canlyniadau*);
3. Aseu gwerth am arian y Cyfnod Sylfaen (y *gwerthusiad economaidd*);
4. Rhoi fframwaith gwerthuso ar waith ar gyfer olrhain allgynnyrch a chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol (y *fframwaith gwerthuso*).

Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dyluniad ffurf lletemau fesul cam er mwyn manteisio'n llawn ar y dull o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ddilyniannol fesul cam ar draws nifer o ysgolion a lleoliadau gwahanol ar adegau gwahanol. Yn benodol, bydd llawer o'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar gymharu carfannau olynol o blant sydd wedi bod drwy'r tair set o leoliadau ysgol ar gyfnodau gwahanol gweithredu'r polisi: Lleoliadau Peilot, Lleoliadau Dechrau'n Gynnar a Lleoliadau Cyflwyno Terfynol. Mae'r gwerthusiad hefyd yn defnyddio ystod o ddulliau i sicrhau ei fod yn darlunio'n llawn gymaint â phosib o agweddau ar weithredu a chyflwyno rhaglen y Cyfnod Sylfaen, a'i heffeithiau.



Nodweddion Allweddol y Gwerthusiad

- Arolwg cenedlaethol o benaethiaid a rheolwyr canolfannau
- Cyfweiliadau gyda llunwyr polisi allweddol mewn llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol ledled Cymru
- Cyfweiliadau ag athrawon ar draws rhanbarthau gwahanol Cymru
- Deugain o astudiaethau achos manwl a ddetholwyd ar hap ar draws rhanbarthau gwahanol Cymru
- Cyfres o arsylwadau sy'n rhoi cipolwg ar ddsbarth/ysgol ar draws grwpiau blwyddyn ac ar adegau gwahanol o'r dydd
- Arsylwadau sy'n rhoi cipolwg mewn lleoliadau cyn ysgol a lleoliadau nas cynhelir
- Holiadur rhieni sydd â phlant yn y Cyfnod Sylfaen
- Arolwg o blant Blwyddyn 6 i edrych am wahaniaethau mewn agweddau tuag at addysg
- Dadansoddiad o ddata presenoldeb i nodi newidiadau mewn ymgysylltu a lles plentyndod
- Cymariaethau o ddata asesiadau athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 yng Nghymru
- Cymharu data cyrhaeddiad rhwng ysgolion /lleoliadau yng Nghymru gydag ysgolion/lleoliadau 'cyfatebol' yn Lloegr
- Dadansoddiad hydredol o ddatblygiad addysgol a chymdeithasol plant
- Defnyddio data CYBLD a Data Cyrhaeddiad Disgyblion trwy gydol y dadansoddi
- Modelu deilliannau ar aml-lefel er mwyn gwella nodi achos ac effaith
- Orlhain plant sy'n agored i niwed, fel y rhai sydd mewn gofal neu'n dod o gartrefi un rhiant
- Orlhain llwybr plant o Dechrau'n Deg i mewn i'r Cyfnod Sylfaen
- Dadansoddiad o gostau a chanlyniadau yn seiliedig ar gostau gweithredu gros a net
- GGwefan werthuso ar gyfer lledaenu canfyddiadau ac ymgysylltu ag unigolion neu randdeiliaid â diddordeb
- AAdroddiadau blynyddol: yn cynnwys crynodebau ac adroddiadau ymchwil manylach
- AAdroddiadau ar agweddau penodol ar y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys enghreifftiau o arfer da
- TTeipoleg o weithredu ar sail astudiaethau achos
- DDatblygu 'damcaniaeth rhaglen' sy'n sail i weithredu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn ei werthuso
- CLLUunio Fframwaith Gwerthuso ar gyfer monitro a gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn y dyfodol

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

WISERD
46 Parc y Plas
Caerdydd CF 10 3BB
Cymru

E-bost. fpevaluation@caerdydd.ac.uk
Ffôn. 029 2087 ####
Ffacs. 029 2087 6318
www.wiserd.ac.uk/foundationphase

